
TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# CERDDORIAETH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU



## MANYLEB

Addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2017 (UG)
I'w ddyfarnu o 2018 (Safon Uwch)

Fersiwn 4 Gorffennaf 2024

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Mân newidiadau i adlewyrchu gofynion y ddogfen log cyfansoddi newydd. Er bod gofyn o hyd i athrawon fonitro gwaith ar dri achlysur, dim ond un llofnod a ddefnyddir i gadarnhau hyn. | 38 |
| 3 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad. | 40 |
| | Cynhwyswyd gwybodaeth yn ymwneud ag addasiadau i farciau perfformiadau Uned 1 ac Uned 4B sy'n llai na 6 munud o hyd, ac i berfformiadau Uned 4A sy'n llai na 10 munud o hyd yn adran 3.2 'Trefniadau Asesu Di-arholiad' ac yn Atodiad A | 36, 37, 50-53 |
| 3b | Disodli 'darn gosod' gyda 'gwaith gosod'.<br>Disodli 'darnau gosod' gyda 'gweithiau gosod' | Amrywiol |
| | Mewnosod pwynt bwled cyn: 'darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig' | 28 |
| | Mewnosod pwynt bwled cyn: 'darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig' | 29 |
| | Mewnosod 'gosod' rhwng 'gweithiau' a 'penodol' | 60 |
| 4 | Newidiwyd y wybodaeth ynghylch cyfansoddiadau briffiau sydd ddim yn arddull Glasurol y Gorllewin. Ni fyddan nhw'n derbyn sero marciau yn awtomatig os bydd modd rhoi marciau am ddeunydd yn ôl y cynllun marcio. | 39 |
| | Newid yn y darnau i'w hastudio yn Uned 3, Maes Astudio A, ac Uned 6, Maes Astudio D, a Maes Astudio DD, Llinynnau 1 a 2. | 14, 27-32 |
| | Dileu'r gofyniad i gysylltu darnau a berfformiwyd ar gyfer Uned 1 ac Uned 4 â'r Meysydd Astudio. | 10, 20 |

© WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a SAFON UWCH CBAC mewn CERDDORIAETH

## I'w Addysgu o 2016
## UG i'w ddyfarnu o 2017
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

**Tudalen**


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | | **2** |
| 1. | **Rhagarweiniad** | | **6** |
| | 1.1 | Nodau ac amcanion | 6 |
| | 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 7 |
| | 1.3 | Cydraddoldeb a mynediad teg | 8 |
| | 1.4 | Bagloriaeth Cymru | 8 |
| | 1.5 | Persbectif Cymreig | 8 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | | **9** |
| | 2.1 | Unedau UG | 10 |
| | 2.2 | Unedau U2 | 20 |
| 3. | **Asesu** | | 35 |
| | 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 35 |
| | 3.2 | Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad | 36 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | | **41** |
| | 4.1 | Cofrestru | 41 |
| | 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 42 |
| **Atodiad A:** Unedau1 a 4: Gwybodaeth asesu | | | 43 |
| **Atodiad B:** Unedau 2 a 5: Gwybodaeth asesu | | | **55** |
| **Atodiad C:** Rhestr o dermau cerddorol | | | 66 |

# TAG UG a SAFON UWCH CERDDORIAETH (CYMRU)

## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi ei rhannu'n gyfanswm o 6 uned, 3 uned UG a 3 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

### UG (3 uned)

**UG Uned 1: Perfformio**
**Cyfanswm hyd perfformiadau: 6-8 munud**
**12% o'r cymhwyster** — **60 marc**

Perfformiad yn cynnwys **lleiafswm o ddau** ddarn **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau.

**UG Uned 2: Cyfansoddi**
**Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud**
**12% o'r cymhwyster** — **54 marc**

**Dau** gyfansoddiad

1. Darn sy'n para o leiaf **1 munud** sy'n defnyddio'r technegau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin, fel ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd y dysgwyr yn cael dewis o **bedwar** briff penodol. Bydd y briffiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd asesu'r uned.
2. Cyfansoddiad rhydd sy'n para o leiaf **2 funud**.

**UG Uned 3: Arfarnu**
**Arholiadau ysgrifenedig: (tua) 1 awr 30 munud**
**16% o'r cymhwyster** — **72 marc**

**Dau faes astudio:**

Maes astudio A: **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 1)

**Noder y bydd y gweithiau gosod UG yn newid o arholiad 2026**

***Naill ai:***

**I'w arholi tan Haf 2025:**
- **Y Symffoni** 1760-1830 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Symffoni Rhif 103, Drum Roll,* Haydn, Symudiadau 1 a 2.

**I'w arholi o Haf 2026:**
- **Y Symffoni** 1760-1830 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Symffoni Rhif 103, Drum Roll,* Haydn, Symudiadau 3 a 4.

***Neu:***

**I'w arholi tan Haf 2025:**
- **Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol** 1730-1800 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Requiem,* Mozart *(Requiem, Dies Irae, Tuba Mirum a Rex Tremendae).*

**I'w arholi o Haf 2026:**
- **Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol** 1730-1800 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Requiem, (Recordare, Confutatis, Lacrimosa, Domine Jesu.)*

© WJEC CBAC Cyf.

Dewis **un** maes astudio o blith:
Maes astudio B: **Roc a Phop** 1965-1990
Maes astudio C: **Theatr Gerdd,** *Porter, Rodgers, Schönberg* a *Lloyd-Webber*
Maes astudio Ch: **Jazz** 1940-1965.

## Safon Uwch (yr uchod a 3 uned ychwanegol)

**U2 Uned 4: Perfformio**

| | |
|---|---|
| **Opsiwn A: Cyfanswm hyd perfformiadau: 10-12 munud** | **90 marc** |
| **Opsiwn A: 22% o'r cymhwyster** | |
| **Opsiwn B: Cyfanswm hyd perfformiadau: 6-8 munud** | **60 marc** |
| **Opsiwn B: 14% o'r cymhwyster** | |

**Opsiwn A: Perfformio (22%)**
Perfformiad yn cynnwys **lleiafswm o dri** darn. Mae'n rhaid perfformio o leiaf **un** o'r darnau hyn fel **unawdydd**. Gellir perfformio'r darnau eraill **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau.

***Neu***

**Opsiwn B: Perfformio (14%)**
Perfformiad yn cynnwys **lleiafswm o ddau** ddarn **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau.

**U2 Uned 5: Cyfansoddi**

| | |
|---|---|
| **Opsiwn A: Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud** | **54 marc** |
| **Opsiwn A: 14% o'r cymhwyster** | |
| **Opsiwn B: Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 5-9 munud** | **90 marc** |
| **Opsiwn B: 22% o'r cymhwyster** | |

**Opsiwn A: Cyfansoddi (14%)**

**Dau** gyfansoddiad
1. Darn sy'n para o leiaf **1 munud** sy'n defnyddio'r technegau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin, fel ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd y dysgwyr yn cael dewis o **bedwar** briff penodol. Bydd y briffiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd asesu'r uned.
2. Cyfansoddiad rhydd sy'n para o leiaf **2 funud**.

**Neu**

**Opsiwn B: Cyfansoddi (22%)**

**Tri** chyfansoddiad:
1. Darn sy'n para o leiaf **1 munud** sy'n defnyddio'r technegau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin, fel ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd y dysgwyr yn cael dewis o **bedwar** briff penodol. Bydd y briffiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd asesu'r uned.
2. Cyfansoddiad rhydd sy'n cyfleu un maes astudio **arall** gwahanol sy'n para am o leiaf **2 funud**.
3. Cyfansoddiad rhydd sy'n para o leiaf **2 funud**.

© WJEC CBAC Ltd.

**U2 Uned 6: Arfarnu**
**Arholiadau ysgrifenedig: 2 awr 15 munud (tua)**
**24%** o'r cymhwyster 80 marc

**Dau faes astudio:**

Maes Astudio D: **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 2)

**Noder y bydd y gweithiau gosod Safon Uwch yn newid o arholiad 2027.**
***Naill ai:***

**I'w arholi tan Haf 2026:**
- **Y Symffoni** 1830-1910 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Symffoni Rhif 1, Symudiad 4*, Brahms

**I'w arholi o Haf 2027:**
- **Y Symffoni** 1830-1910 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Symffoni Rhif 1, Symudiad 1*, Brahms

***Neu:***

**I'w arholi tan Haf 2026:**
- **Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol** 1800-1890 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Requiem, Verdi (Dies Irae)*

**I'w arholi o Haf 2027:**
- **Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol** 1800-1890 yn cynnwys **un** gwaith gosod, *(Requiem, Verdi (Ingemisco, Confutatis, Lacrymosa, Domine Jesu Christe, Sanctus)*

Maes Astudio DD: **Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain**

Bydd dysgwyr yn dewis **un** llinyn o restr A ac **un** llinyn o restr B.

**Rhestr A**

**Noder y bydd y prif weithiau gosod Safon Uwch yn newid o arholiad 2027.**

***Naill ai:***

**I'w arholi tan Haf 2026:**
- Llinyn 1: **Argraffiadaeth** yn cynnwys **un gwaith** gosod, *Reflets Dans L'eau,* Debussy a **dau** ddarn atodol *Colloque Sentimental,* Debussy a *Mother Goose (Ballet) (Prelude),* Ravel

**I'w arholi o Haf 2027:**
- Llinyn 1: **Argraffiadaeth** yn cynnwys **un gwaith** gosod, *Pour Les Funerailles d'un Soldat,* Lili Boulanger, a **dau** ddarn atodol *Colloque Sentimental,* Debussy a *Mother Goose (Ballet) (Prelude),* Ravel

***Neu:***

**I'w arholi tan Haf 2026**
- Llinyn 2: **Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru** yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Night Dances,* Plowman a **dau** ddarn atodol: *Ariel,* Samuel a *Tango Passacaglia,* Wilson-Dickson

**I'w arholi o Haf 2027:**
- Llinyn 2: **Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru** yn cynnwys **un** gwaith gosod, *Summer to Autumn,* Ben Henegan a **dau** ddarn atodol: *Ariel,* Samuel a *Tango Passacaglia,* Wilson-Dickson

© WJEC CBAC Cyf.

**Rhestr B**

***Naill ai:***

- Llinyn 3: **Cerddoriaeth Boblogaidd yng Nghymru**, *Gruff Rhys, Super Furry Animals, The Manic Street Preachers* a *Kizzy Crawford*

***Neu:***

- Llinyn 4: **Theatr Gerdd Americanaidd**, *Stephen Sondheim* a *Stephen Schwartz*

***Neu:***

- Llinyn 5: **Cewri Jazz**, *Duke Ellington* a *Miles Davis*

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Uned 4, Uned 5 ac Uned 6 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

**Rhif Cymhwyster ar restr The Register:**
**TAG UG: 601/8550/8**
**TAG Safon Uwch: 601/8509/0**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0780/9**
**TAG Safon Uwch: C00/0780/8**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG a SAFON UWCH CERDDORIAETH

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae TAG UG a Safon Uwch CBAC mewn Cerddoriaeth yn cynnig cwrs astudio eang a chydlynol sy'n annog dysgwyr i:

- ymgysylltu'n weithgar â'r broses o astudio cerddoriaeth
- datblygu sgiliau perfformio ar gyfer dangos dealltwriaeth o elfennau, arddull, ymdeimlad o ddilyniant, dehongliad a mynegiant cerddorol
- datblygu sgiliau cyfansoddi ar gyfer dangos y gallu i ymdrin â syniadau cerddorol a defnyddio dyfeisiau a chonfensiynau cerddorol
- adnabod cyd-ddibyniaeth gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cerddorol, a gwneud cysylltiadau rhwng gweithgareddau integredig perfformio, cyfansoddi ac arfarnu y mae gwrando'n astud yn sail iddynt
- ymestyn profiad a diddordeb cerddorol, datblygu dychymyg a meithrin creadigrwydd
- datblygu ac ymestyn y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol fel cerddorion
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o offerynnau ac arddulliau, ac o ddulliau perthnasol o berfformio a chyfansoddi
- datblygu ymwybyddiaeth o dechnolegau cerddoriaeth a'r defnydd a wneir ohonynt wrth greu a chyflwyno cerddoriaeth
- arfarnu genres, arddulliau a thraddodiadau cerddorol cyferbyniol, a datblygu dealltwriaeth o gyd-destunau cerddorol ac ymwybyddiaeth o gronoleg gerddorol
- datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sydd â meddyliau ymholgar
- myfyrio'n feirniadol a rhoi barn bersonol ar eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth pobl eraill
- ymgysylltu â'r dreftadaeth gerddorol amrywiol ac ymestyn y gwerthfawrogiad ohoni, er mwyn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol, deallusol a diwylliannol.

Mae manyleb CBAC yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau mewn tair disgyblaeth neilltuol ond cysylltiedig, sef perfformio, cyfansoddi ac arfarnu. Bydd yr holl ddysgwyr yn astudio **Traddodiad Clasurol y Gorllewin**, gan ymgysylltu â cherrig milltir repertoire cerddorfaol a chorawl er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth. Bydd y dysgwyr yn defnyddio technegau a chonfensiynau cerddorol y traddodiad hwn er mwyn cyfansoddi **un** darn o gerddoriaeth fydd yn ateb briff.

Er mwyn cynnig cyferbyniad ac ehangder i'r astudio, ar lefel UG bydd dysgwyr hefyd yn dewis **un** maes astudio o ddewis o dri, **naill ai** Roc a Phop, **neu** Theatr Gerdd **neu** Jazz. Mae meysydd astudio a llinynnau U2 yn galluogi dysgwyr i barhau â'r hyn a astudiwyd ar lefel UG yn fwy trylwyr. Bydd dysgwyr yn dewis **dau** linyn arall o gerddoriaeth o ddewis o bump. Mae blas Cymreig amlwg i ddau o'r llinynnau hyn sy'n galluogi dysgwyr i ymgysylltu â cherddoriaeth cyfansoddwyr a pherfformwyr cyfoes o Gymru.

Mae'r fanyleb yn hyblyg ac mae'n caniatáu dysgu'r meysydd astudio gyda'i gilydd neu'n olynol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn rhoi rhyddid i ddysgwyr fynegi eu diddordebau cerddorol eu hunain drwy gyfansoddi a pherfformio mewn arddulliau o'u dewis hwy.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn ystod TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Cerddoriaeth neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

© WJEC CBAC Ltd.

# 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. gwneud cais am amser ychwanegol mewn pwnc TAG lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.* Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

# 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

# 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig yn yr UG (ym meysydd astudio B ac Ch), a pharhau â hyn gyda mwy o ddyfnder yn yr U2 (ym maes astudio DD), **Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain**. Gall y dysgwyr ddewis naill ai **Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru** a / neu **Gerddoriaeth Boblogaidd yng Nghymru.** Mae ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion Cymru, yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Cyf.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

**Cyflwyniad**

Mae'r fanyleb hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr astudio cerddoriaeth mewn ffordd **integredig,** gyda sgiliau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth o elfennau, cyd-destunau ac iaith gerddorol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn galluogi dysgwyr i **arbenigo naill ai** mewn perfformio **neu** gyfansoddi am 8% ychwanegol o'r cymhwyster drwy ddarparu dau opsiwn yn Unedau 4 a 5 ar lefel U2.

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis **naill ai** Opsiwn A yn Unedau 4 a 5 **neu** Opsiwn B yn Unedau 4 a 5.

- Mae **Opsiwn A** yn galluogi dysgwyr i arbenigo mewn **Perfformio**: Bydd 22% o Uned 4 yn cael ei neilltuo ar gyfer perfformio a 14% o Uned 5 yn cael ei neilltuo ar gyfer cyfansoddi.

- Mae **Opsiwn B** yn galluogi dysgwyr i arbenigo mewn **Cyfansoddi**: Bydd 22% o Uned 5 yn cael ei neilltuo ar gyfer cyfansoddi a 14% o Uned 4 yn cael ei neilltuo ar gyfer perfformio.

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng **pedwar** maes astudio o'r dewisiadau isod. Mae meysydd astudio A a D yn orfodol ar lefel UG ac U2 yn ôl eu trefn, ac yna bydd dysgwyr yn dewis **un** maes astudio cyferbyniol ar lefel UG a **dau** linyn cyferbyniol ym maes astudio DD ar lefel U2.

| | |
|---|---|
| UG Cerddoriaeth Uned 3 | Maes Astudio A: **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 1)<br><br>**Naill ai:** Y Symffoni 1760-1830<br>**Neu:** Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol 1730-1800 |
| | Dewis **un** o:<br><br>Maes Astudio B: Roc a Phop 1965-1990<br><br>Maes Astudio C: Theatr Gerdd (4 cyfansoddwr)<br><br>Maes Astudio Ch: Jazz 1940-1965. |
| U2 Cerddoriaeth Uned 6 | Maes Astudio D: **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 2)<br><br>**Naill ai:** Y Symffoni 1830-1910<br>**Neu:** Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol 1800-1890 |
| | Maes Astudio Dd: Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain. Dewis **un** o restr A ac **un** o restr B.<br><br>Rhestr A:<br>Llinyn 1: Argraffiadaeth<br>Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru<br><br>Rhestr B<br>Llinyn 3: Cerddoriaeth Boblogaidd yng Nghymru<br>Llinyn 4: Theatr Gerdd Americanaidd<br>Llinyn 5: Cewri Jazz |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.1 UNEDAU UG

## Uned 1

**Perfformio**
Cyfanswm hyd perfformiadau: 6-8 munud
12% o'r cymhwyster
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan **arholwr ymweld**
60 marc

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr roi perfformiad yn cynnwys **lleiafswm o ddau** ddarn **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau. Bydd hyd y perfformiad rhwng **6 ac 8 munud**, heb gynnwys unrhyw fylchau rhwng y darnau.

**Dewis Cerddoriaeth ar gyfer Perfformio**

Gall dysgwyr ddewis perfformio **un** o'u cyfansoddiadau eu hunain. Cynghorir dysgwyr sy'n dewis perfformio un o'u cyfansoddiadau eu hunain i ddewis darn addas gan sicrhau ei fod yn rhoi cyfle iddynt ddangos eu sgiliau perfformio gorau.

Ni chyfyngir y dysgwyr i un offeryn/llais. Fodd bynnag, nid oes mantais i berfformio ar fwy nag un offeryn/llais yn olynol. Efallai y bydd dysgwyr sy'n dewis canu a chyfeilio iddynt eu hunain yn cael eu hasesu am y rhannau lleisiol ac offerynnol ar yr un pryd, neu'n cael eu hasesu naill ai ar y rhan lleisiol neu'r rhan offerynnol.

Mae'n rhaid darparu copi o gerddoriaeth pob darn ar gyfer yr arholwr. Pan nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur y perfformiad, e.e. chwarae'n fyrfyfyr, mae'n rhaid darparu dalen ganllawfanwl.

Er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr o ran dewis cerddoriaeth ar gyfer yr uned hon, darperir meini prawf asesu perfformio yn **Atodiad A**. Dylai'r darnau i'w perfformio ar gyfer UG fod ar lefel uwch na darnau ar gyfer TGAU, gan ddangos mwy o ofynion technegol a deongliadol sy'n cyfateb i **radd 5** yr arholiadau cerddoriaeth graddedig presennol. Bydd y marc sy'n cael ei ennill am y perfformiad yn cael ei addasu gan ddefnyddio'r tabl graddio yn Atodiad A; bydd yn cael ei addasu'n uwch os bydd y darn yn anoddach na gradd 5, yn cael ei addasu'n is os bydd y darn yn haws na gradd 5, ac yn aros yr un fath os bydd y darn yn cyfateb i radd 5.

© WJEC CBAC Cyf.

**Perfformiad Unawdol**
Gall dysgwyr sy’n dewis yr opsiwn hwn berfformio gyda chyfeiliant **neu’n** ddigyfeiliant, ond **nid** dan arweiniad. Gall y cyfeiliant fod yn fyw **neu'n** drac cyfeiliant ond ni chaniateir defnyddio clic-drac yn unig na metronom. Nid oes rhaid i'r cyfeilydd fod yn sefyll yr arholiad.

**Perfformiad Ensemble**
Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd sy’n dewis yr opsiwn hwn berfformio rhan **unawdol** arwyddocaol **heb** ei dyblu, fel rhan o ensemble, gyda chyfeiliant **neu'n** ddigyfeiliant, ond **nid** dan arweiniad. Gall y cyfeiliant fod yn fyw **neu'n** drac cyfeiliant ond ni chaniateir defnyddio clic-drac na metronom. Mae’n rhaid i’r ensemble gynnwys **dau** neu fwy o chwaraewyr; ond **nid** yw hynny’n cynnwys y cyfeilydd. Mae cyfeiliant lieder (neu sgil debyg) yn ensemble derbyniol, pan mai'r **dysgwr yw'r cyfeilydd** ond nid pan mai'r dysgwyr yw'r unawdydd. Uchafswm y perfformwyr ar gyfer grŵp ensemble yw **wyth**. Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble na’r cyfeilydd sefyll yr arholiad. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble dylid cysylltu â CBAC am gyngor.

**Chwarae'n Fyrfyfyr**
Mae’n rhaid i’r dysgwyr sy’n dewis yr opsiwn hwn baratoi perfformiad chwarae'n fyrfyfyr fel ymateb i symbyliad o’u dewis eu hunain. Gellir paratoi hwn ymlaen llaw cyn yr asesiad ymarferol. (Gall symbyliad fod yn ddilyniant o gordiau, graddfa etc.) **Mae'n rhaid rhoi copi o'r symbyliad cerddorol a dalen ganllawi'r aseswr os nad oes sgôr ar gael.**

## Asesu Uned 1

Nid yw'r dysgwyr yn cael perfformio'r un repertoire yn Uned 1 ac yn Uned 4. Yn yr asesiad perfformio, dylai'r dysgwyr ddangos:

- cywirdeb traw a rhythm
- rhuglder y perfformiad
- defnydd o dempo priodol
- sylw i gyfarwyddiadau perfformio gan gynnwys defnydd effeithiol o ddynameg
- rheolaeth dechnegol yn cynnwys techneg, tonyddiaeth, alldaflu ac ansawdd tôn da
- dealltwriaeth o arddull a chyd-destun
- mynegiant a dehongliad priodol, yn cynnwys brawddegu
- empathi (gyda’r cyfeilydd ac wrth chwarae mewn ensemble)

Mae **Atodiad A** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon yn cynnwys:

- grid asesu
- tabl o addasiadau sy’n gysylltiedig â lefel her y darn i'w berfformio
- mwy o ganllawiau ynghylch rheolaeth dechnegol
- tabl o addasiadau i berfformiadau sy’n llai na 6 munud o hyd.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 2

## Cyfansoddi

Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud
12% o'r cymhwyster
Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan CBAC
54 marc

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr baratoi portffolio o **ddau** gyfansoddiad:

1. Cyfansoddiad sy'n cyfleu'r iaith, y technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â **Thraddodiad Clasurol y Gorllewin** fel ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**. Dylai'r cyfansoddiad bara **o leiaf 1 munud**. Gall y darn **naill ai** fod yn rhan gyflawn o gyfansoddiad mwy e.e. dangosiad symudiad ar ffurf sonata, **neu** ffurf fach e.e. noctwrn, fel sy'n briodol i'r briff.

2. Cyfansoddiad **rhydd** y mae'r dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar ei gyfer. Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad bara **o leiaf 2 funud**.

### Cyfansoddi i friff a osodwyd gan CBAC

Bydd y dysgwyr yn cael dewis o **bedwar** briff. Bydd y briffiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd cynnal yr asesiad. Bydd y briff bob amser yn cynnwys manylion am yr achlysur neu'r gynulleidfa a gwybodaeth gerddorol ychwanegol. Bydd dau friff ar gyfer rhannau o gyfansoddiadau mwy a dau friff ar gyfer cyfansoddiadau ffurfiau bach.

Mae'r pedwar briff yn gysylltiedig â maes astudio A, **Traddodiad Clasurol y Gorllewin**, ac mae'n rhaid i'r ymateb i'r briff a ddewisir arwain at gyfansoddiad mewn **arddull** Clasurol Gorllewinol sy'n dangos dealltwriaeth o **iaith, technegau a chonfensiynau cerddorol** y cyfnod (h.y. cyfnodau Baróc, Clasurol a Rhamantaidd) Gall y dysgwyr ddewis unrhyw arddull neu genre addas o'r cyfnod o fewn cylch gwaith y briff cyfansoddi. Ceir mwy o wybodaeth a chanllawiau ar gyfansoddi mewn arddull Clasurol Gorllewinol yn Atodiad B. Mae briffiau cyfansoddi enghreifftiol wedi'u cynnwys yn y **deunyddiau asesu enghreifftiol**.

### Cyfansoddi cyfansoddiad rhydd

Anogir dysgwyr i ddatblygu eu diddordebau cerddorol eu hunain drwy gyfansoddi mewn arddull o'u dewis eu hunain. Mae dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar gyfer y cyfansoddiad hwn, ac mae'n rhaid iddo gynnwys manylion am yr achlysur neu'r gynulleidfa a gwybodaeth gerddorol ychwanegol. **Ni** fydd y briff ei hun yn cael ei asesu; fodd bynnag, bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu hymateb cerddorol i'r briff.

© WJEC CBAC Cyf.

## Asesu Uned 2

Nid yw dysgwyr yn cael cyflwyno'r un darnau i'w hasesu yn Uned 2 ac yn Uned 5. Cynghorir dysgwyr i ystyried gofynion y meini prawf marcio wrth gynllunio a chyfansoddi eu cerddoriaeth. Bydd y canlynol yn cael ei asesu:

- creu syniadau cerddorol, yn cynnwys:
    - llunio syniadau cychwynnol
    - cyflwyno syniadau
    - syniadau sy'n ymateb i'r briff a osodwyd/dewiswyd
- datblygu syniadau cerddorol, yn cynnwys:
    - deunydd thematig
    - defnyddio technegau cyfansoddi
    - cyfuniad o elfennau cerddorol er mwyn cynnig canlyniad cydlynol
- rheolaeth dechnegol a mynegiannol ar yr elfennau cerddorol yn cynnwys:
    - offerynnau a thechnoleg cerddoriaeth
    - cyfathrebu.

**Tystiolaeth portffolio**

Mae'n rhaid i bob dysgwr gyflwyno'r dystiolaeth ganlynol ac mae'n rhaid ei chyflwyno ar-lein drwy wefan CBAC. Sylwer, mae'n rhaid i'r recordiad o'r cyfansoddiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB). Gellir derbyn dogfennaeth mewn PDF, Word neu unrhyw fformat arall sydd ar hyn o bryd yn gydnaws â Microsoft Office 2010. Mae'n rhaid i bob portffolio gynnwys yr eitemau isod:

1. Recordiadau o gyfansoddiadau.

2. Sgôr **neu** ddisgrifiad ysgrifenedig manwl o'r cyfansoddiad ynghyd ag amlinelliad o'r alaw a'r cordiau a ddefnyddir.

3. Log cyfansoddi nad yw'n cael ei asesu ar gyfer **pob** cyfansoddiad, sy'n amlinellu'r **broses o ddatblygu a mireinio**, y mae'n rhaid i'r athro ei lofnodi er mwyn dilysu'r broses. Mae llofnod electronig yn dderbyniol. Defnyddiwch y templed log a ddarperir ar wefan CBAC.

Mae **Atodiad B** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon yn cynnwys:

- grid asesu
- mwy o ganllawiau ar gyfansoddi mewn arddull Clasurol Gorllewinol
- canllawiau ar gyfansoddi mewn perthynas â'r meysydd astudio eraill.

© WJEC CBAC Ltd.

# Uned 3

**Arfarnu**
Arholiadau ysgrifenedig: (tua) 1 awr 30 munud
16% o'r cymhwyster
72 marc

Bydd yr arholiad hwn yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng **dau** faes astudio. Mae maes astudio A yn orfodol, ac yna bydd y dysgwyr yn dewis **un** maes astudio cyferbyniol; **naill ai** maes astudio B, **neu** faes astudio C **neu** faes astudio Ch.

**Maes astudio A: Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 1)
**Naill ai:** Y Symffoni (1760-1830)
**Neu:** Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol (1730-1800)

**Naill ai:** Maes Astudio B: **Roc a Phop** (1965-1990)
**Neu:** Maes Astudio C: **Theatr Gerdd** (4 cyfansoddwr cynrychiadol)
**Neu:** Maes Astudio Ch: **Jazz** (1940-1965)

## Maes Astudio A: Traddodiad Clasurol y Gorllewin (Rhan 1)

Bydd y dysgwyr yn dewis **naill ai'r** Symffoni 1760-1830 **neu** Gerddoriaeth Gorawl Grefyddol 1730-1800.

### Naill ai: Y Symffoni (1760-1830)

Mae'r maes astudio hwn yn cynnwys astudiaeth drylwyr o:

**I'w arholi tan Haf 2025:**
*Symffoni Rhif 103 yn Eb Fwyaf, 'Drum Roll', symudiadau 1 a 2,* Haydn
**I'w arholi o Haf 2026:**
*Symffoni Rhif 103 yn Eb Fwyaf, 'Drum Roll', symudiadau 3 a 4,* Haydn (Eulenberg, ISBN 978-3-7957-6558-3)

Mae'n rhaid mynd â chopïau glân (dim anodiadau) o'r gwaith gosod i'r arholiad.

Mae'n ofynnol bod y dysgwyr yn astudio'r symffoni o fewn cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol cyfnod yr astudiaeth yn ei gyfanrwydd h.y. 1760 i 1830. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r gwaith fydd wedyn yn rhoi sail ar gyfer deall symffonïau eraill o'r cyfnod.

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol yn y symffoni, yn cynnwys:
  - adeiledd (e.e. ffurf sonata, ffurfiau symudiadau araf, miniwét a thrio a scherzo)
  - cyweiredd (e.e. cyweiriau perthnasol a'u swyddogaeth yn yr adeiledd)
  - gwead (e.e. monoffoni, cyfuniadau cymhleth o linellau cerddorol fel homoffoni a pholyffoni, efelychiant a gwrthbwynt)
  - alaw a datblygiad thematig (e.e. adeiledd brawddegau, dyfeisiau melodig fel dilyniant, ffiguroliad, addurniad, estyn a chywasgu deunydd thematig, ymestyn/darnio thema, cyfuniadau o themâu, trawsnodi, ailharmoneiddio ac ad-drefnu thema ar gyfer y gerddorfa)
  - ansawdd (e.e. cyferbyniad ac amrywiaeth o liwiau tôn a thechnegau offerynnol, a chyfuniad o ansoddau)

  - iaith harmonig (e.e. dilyniadau harmonig nodweddiadol, defnyddio diweddebau, defnyddio 7fed y llywydd, 7fed eilaidd a chywasg, cylch 5edau, cromatyddiaeth, trawsgyweirio a thonyddeiddio)
  - tempo, mesur a rhythm (e.e. defnyddio acenion, arwyddion amser syml a chyfansawdd, rhythmau nodweddiadol fel rhythmau dot, hemiola, tripledi a ffyrdd eraill o rannu curiad, trawsacennu a chyfarwyddiadau perfformio)
  - defnydd mynegiannol o ddynameg
- defnyddio offeryniaeth a datblygiad y gerddorfa yn ystod y cyfnod yn cynnwys:
  - dirywiad basso continuo
  - dylanwad cerddorfa Mannheim
  - defnyddio offerynnau pres a tharo yn achlysurol yn ystod y cyfnod Clasurol cynnar
  - lle blaenllaw i'r llinynnau ar y cychwyn a'r chwythbrennau'n cael eu defnyddio ar gyfer dyblu, atgyfnerthu a llenwi yn yr harmonïau
  - pwysigrwydd cynyddol yr adran chwythbrennau wrth i ddeunydd pwysicach ac annibynnol gael ei roi iddynt
  - datblygiadau o ran trefniannau cerddorfaol ac effeithiau cerddorfaol o ganlyniad i weithiau wedi'u comisiynu
- cyfansoddwyr symffonig pwysig a gweithiau oedd yn gerrig milltir yn y cyfnod
- sut a pham roedd symffonïau'n cael eu comisiynu yn ystod y cyfnod (e.e. nawdd)
- sut datblygodd y symffoni yn ystod y cyfnod (e.e. hyd, nifer y symudiadau a ffurfiau newydd)
- darllen **ac** ysgrifennu hen nodiant, yn cynnwys:
  - cleff y trebl a chleff y bas mewn amser syml a chyfansawdd
  - arwyddion cywair hyd at 5 llonnod a 5 meddalnod
- darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig
- cordiau a symbolau cordiau cysylltiedig
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â'r maes astudio.

### Neu: Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol (1730-1800)

Mae'r maes astudio hwn yn cynnwys astudiaeth drylwyr o:

**I'w arholi tan Haf 2025:**
***Requiem****, (Requiem, Dies Irae, Tuba Mirum a Rex Tremendae):* Mozart
**I'w arholi o Haf 2026:**
*Requiem, (Recordare, Confutatis, Lacrimosa, Domine Jesu.):* Mozart
(Cyfres Eulenburg Miniature Score ISBN: 978-3-7957-6883-6)

Mae'n rhaid mynd â chopïau glân (dim anodiadau) o'r gwaith gosod i'r arholiad.

Mae'n ofynnol bod y dysgwyr yn astudio'r dioddefaint, oratorio, cantata a'r offeren o fewn cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol cyfnod yr astudiaeth yn ei gyfanrwydd h.y. 1730 i 1800. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r gwaith gosod fydd yn rhoi sail ar gyfer deall cerddoriaeth gorawl grefyddol arall y cyfnod.

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn cerddoriaeth gorawl grefyddol, yn cynnwys:
  - adeiledd (e.e. kyrie, gloria, credo, sanctus, benedictus ac agnus dei, adroddgan, aria, cytgan, deuawdau ac ensemble)
  - cyweiredd (e.e. cyweiriau perthnasol a'u swyddogaeth yn yr adeiledd)
  - gwead (e.e. monoffoni, cyfuniadau cymhleth o linellau cerddorol fel homoffoni a pholyffoni, efelychiant a gwrthbwynt)
  - alaw a datblygiad thematig (e.e. adeiledd brawddegau, dyfeisiau melodig fel dilyniant, ffiguroliad, addurniad, estyn a chywasgu deunydd thematig,

© WJEC CBAC Ltd.

ymestyn/darnio thema, cyfuniadau o themâu, trawsnodi, ailharmoneiddio ac ad-drefnu thema ar gyfer y gerddorfa)
- ansawdd (e.e. cyferbyniad ac amrywiaeth o liwiau tôn a thechnegau offerynnol, a chyfuniad o ansoddau)
- iaith harmonig (e.e. dilyniadau harmonig nodweddiadol, defnyddio diweddebau, defnyddio 7fed y llywydd, 7fed eilaidd a chywasg, cylch 5edau, cromatyddiaeth, trawsgyweirio a thonyddeiddio)
- tempo, mesur a rhythm (e.e. defnyddio acenion, arwyddion amser syml a chyfansawdd, rhythmau nodweddiadol fel rhythmau dot, hemiola, tripledi a ffyrdd eraill o rannu curiad, trawsacennu a chyfarwyddiadau perfformio)
- defnydd mynegiannol o ddynameg

- defnyddio grymoedd offerynnol a lleisiol a datblygiad y gerddorfa yn ystod y cyfnod yn cynnwys:
  - gwahanol gyfuniadau o leisiau yn cynnwys y defnydd o'r corws fel yr adroddwr neu'r dorf a chymeriadu unawdol
  - dirywiad basso continuo
  - defnyddio offerynnau pres a tharo yn achlysurol yn ystod y cyfnod Clasurol cynnar
  - lle blaenllaw i'r llinynnau ar y cychwyn a'r chwythbrennau'n cael eu defnyddio ar gyfer dyblu, atgyfnerthu a llenwi yn yr harmonïau
  - pwysigrwydd cynyddol yr adran chwythbrennau wrth i ddeunydd pwysicach ac annibynnol gael ei roi iddynt
  - datblygiadau o ran trefniannau cerddorfaol ac effeithiau lleisiol/cerddorfaol o ganlyniad i weithiau wedi'u comisiynu
- y berthynas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth
- cyfansoddwyr corawl pwysig a gweithiau oedd yn gerrig milltir yn y cyfnod
- sut a pham roedd gweithiau corawl crefyddol yn cael eu comisiynu yn ystod y cyfnod (e.e. nawdd)
- sut datblygodd cerddoriaeth gorawl grefyddol yn ystod y cyfnod (e.e. hyd, nifer y symudiadau a ffurfiau newydd)
- darllen **ac** ysgrifennu hen nodiant, yn cynnwys:
  - cleff y trebl a chleff y bas mewn amser syml a chyfansawdd
  - arwyddion cywair hyd at 5 llonnod a 5 meddalnod
- darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig
- cordiau a symbolau cordiau cysylltiedig
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â'r maes astudio.

**Asesu maes astudio A** (45 marc)

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr ateb **tri** chwestiwn ar faes astudio A:

- cwestiwn dirnadaeth glywedol ar ddyfyniad o gerddoriaeth heb ei baratoi o'r cyfnod Clasurol gyda sgôr fras (bydd hyn yr un fath yn achos y ddau opsiwn)
- cwestiwn dadansoddi ar ddarn o'r gwaith gosod a ddewiswyd
- cymhariaeth o **ddau** ddyfyniad symffonig **neu** gorawl gan ddangos dealltwriaeth o'r cyfnod.

## **Maes Astudio B: Roc a Phop** 1965-1990

Mae’n ofynnol i'r dysgwyr astudio **pedwar** genre roc a phop o'r cyfnod rhwng 1965 a 1990:

- Pop (yn cynnwys Funk a Disco)
- Roc (yn cynnwys Roc Blaengar a Roc Trwm)
- Soul
- Gwlad

Bydd y dysgwyr yn archwilio elfennau ac iaith gerddorol mewn gwahanol gyd-destunau roc a phop.

Byddant yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn roc a phop, yn cynnwys:
    - adeiledd (e.e. stroffig, ffurf cân 32 bar, blues 12 bar a phennill a chytgan)
    - cyweiredd (e.e. moddol a phentatonig)
    - gwead
    - ansawdd ( e.e. offerynnau pwysig/eiconig fel piano Rhodes, gitâr Stratocaster, syntheseiddiwr Moog, ystumiant, adborth, tremolo, effeithiau fel pedal wah-wah, cordiau pŵer, falsetto, vibrato a gwahanol fathau o fandiau roc a phop)
    - alaw (e.e. ystod, sillafog, melismataidd, dilyniannau, ailadrodd, canu sgat a phortamento)
    - iaith harmonig (e.e. 7fed mwyaf a lleiaf, 7fed llywydd, 7fed cywasg, cord sus4, 6ed ychwanegol, nodau blues, cordiau pŵer a chordiau dilynol)
    - tempo, mesur a rhythm (e.e. shifflo, rhythmau dot, oddi ar y curiad, ôl-guriad, grŵf a mesurau afreolaidd)
    - dynameg
- y berthynas rhwng geiriau a cherddoriaeth (e.e. sut mae cyfansoddwyr yn defnyddio elfennau cerddorol i bwysleisio geiriau cân)
- defnyddio technoleg cerddoriaeth (e.e. effeithiau stiwdio fel datseinio ac oedi, datblygiad technegau recordio amldraciau, tros-seinio, effeithiau panio, datblygiad offerynnau cerddorol electronig fel y syntheseiddiwr, samplwr a’r peiriant drymiau).
- artistiaid/bandiau pwysig yn natblygiad pob genre
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu, ei datblygu a’i pherfformio (e.e. ym mha ffordd byddai angen newid recordiad stiwdio band ar gyfer perfformiad byw efallai)
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr (e.e. sut gall amgylchiadau penodol effeithio ar sut caiff cân ei chyfansoddi)
- sut mae roc a phop wedi newid gydag amser (e.e. datblygiad arddulliau roc/pop a’r ffordd maent wedi trawsffrwythloni)
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â’r maes astudio.

## **Asesu Maes Astudio B** (27 marc)

Mae’n ofynnol bod y dysgwyr yn ateb **pob** cwestiwn:

- cwestiwn dirnadaeth glywedol, a all gynnwys sgôr, ar ddyfyniad heb ei baratoi
- cwestiwn sy’n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun ehangach y maes astudio. Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn y cwestiwn hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Maes Astudio C: Theatr Gerdd** (4 cyfansoddwr cynrychiadol)

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr astudio **pedwar** cyfansoddwr theatr gerdd o'r ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain:

- Cole Porter
- Richard Rodgers
- Claude-Michel Schönberg
- Andrew Lloyd Webber.

Bydd y dysgwyr yn archwilio elfennau ac iaith gerddorol mewn gwahanol gyd-destunau theatr gerdd.

Byddant yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn theatr gerdd, yn cynnwys:
    - adeiledd (e.e. ffurf stroffig a chân 32 bar)
    - cyweiredd (e.e. sut mae'n effeithio ar naws ac awyrgylch)
    - gwead
    - ansawdd (e.e. cyfuniadau lleisiol ac offerynnol fel deuawdau a chorysau, a rhinweddau lleisiol fel falsetto, twang, techneg llefaru a beltio)
    - alaw (e.e. ystod, sillafog, melismataidd, leitmotivau a thrawsnewid thematig)
    - iaith harmonig ( 7fed mwyaf a lleiaf, 7fed llywydd, 7fed cywasg, cord sus4, 6ed ychwanegol, nodau blues a thrithonau)
    - tempo, mesur a rhythm (e.e. rhythmau dot, trawsacennu a rhythmau dawns)
    - dynameg
- y berthynas rhwng geiriau a cherddoriaeth (e.e. integreiddiad a sut mae cyfansoddwyr yn defnyddio elfennau cerddorol i bwysleisio geiriau cân)
- cerddoriaeth ar gyfer gwahanol fathau o gymeriad (e.e. comig, difrifol, cariadon a chorws)
- mathau o ganeuon (e.e. cariad, comedi, parablu ac uchafbwynt y sioe)
- rôl y gerddorfa (e.e. cyfeilio ac isgerddoriaeth)
- genres (e.e. comedi gerdd, canu drwodd a sioeau cerdd roc)
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr (e.e. sut gall amgylchiadau penodol effeithio ar sut caiff sioe gerdd ei chyfansoddi)
- sut mae cerddoriaeth ar gyfer theatr wedi newid gydag amser (e.e. sut mae'r arddulliau wedi trawsffrwythloni)
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â'r maes astudio.

**Asesu Maes Astudio C** (27 marc)

Mae'n ofynnol bod y dysgwyr yn ateb **pob** cwestiwn:

- cwestiwn dirnadaeth glywedol, a all gynnwys sgôr, ar ddyfyniad heb ei baratoi
- cwestiwn sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun ehangach y maes astudio. Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn y cwestiwn hwn.

Efallai y bydd y dyfyniadau heb eu paratoi gan gyfansoddwyr nad ydynt wedi'u rhestru yng nghynnwys y pwnc uchod. Os felly, ni fydd disgwyl i ddysgwyr adnabod y cyfansoddwr.

## Maes Astudio Ch: Jazz 1940-1965.

Mae’n ofynnol i'r dysgwyr astudio **tri** genre jazz rhwng 1940 a 1965:

- Band mawr (yn cynnwys Swing)
- Be-bop
- Cŵl.

Bydd y dysgwyr yn archwilio elfennau ac iaith gerddorol mewn gwahanol gyd-destunau jazz.

Byddant yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn jazz, yn cynnwys:
    - adeiledd (e.e. adeileddau 12/16/32 bar, thema ac amrywiad, blaen a chytganau)
    - cyweiredd
    - gwead (e.e. perfformiad unsain a chwarae’n fyrfyfyr ar y pryd)
    - ansawdd (e.e. adran rhythm, offerynnau blaen, ffigurau cefndir, gwahanol fathau o gyfuniadau jazz, sgat ac effeithiau perfformio fel glissando, chwyrnu a defnyddio mudyddion)
    - alaw (e.e. chwarae'n fyrfyfyr, nodau blues, ríffiau a lics)
    - iaith harmonig (e.e. cordiau ychwanegol/estyniadau cordiau, nodiant cordiau, cyfeilio, defnyddio moddau a chordiau slaes)
    - tempo, mesur a rhythm (e.e. rhythmau swing, mesurau afreolaidd, grŵf, ciciau, amser dwbl a thrawsacennu)
    - dynameg
- cyfansoddwyr/perfformwyr pwysig yn natblygiad pob genre
- rôl chwarae’n fyrfyfyr
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr (e.e. sut gall amgylchiadau penodol effeithio ar sut cafodd y gerddoriaeth ei chyfansoddi)
- sut mae jazz wedi newid gydag amser (e.e. sut mae’r arddulliau wedi trawsffrwythloni)
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â’r maes astudio.

### **Asesu Maes Astudio Ch** (27 marc)

Mae’n ofynnol bod y dysgwyr yn ateb **pob** cwestiwn:

- cwestiwn dirnadaeth glywedol, a all gynnwys sgôr, ar ddyfyniad heb ei baratoi
- cwestiwn sy’n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun ehangach y maes astudio. Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn y cwestiwn hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UNEDAU U2

## Uned 4

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis **naill ai** Opsiwn A yn Unedau 4 a 5 **neu** Opsiwn B yn Unedau 4 a 5.

**Perfformio**
Opsiwn A: Cyfanswm hyd perfformiadau: 10-12 munud
Opsiwn A: 22% o'r cymhwyster
Opsiwn A: 90 marc

Opsiwn B: Cyfanswm hyd perfformiadau: 6-8 munud
Opsiwn B: 14% o'r cymhwyster
Opsiwn B: 60 marc

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan **arholwr ymweld**

**Opsiwn A: Perfformio (22%)**

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr roi perfformiad sy'n cynnwys **lleiafswm** o **dri** darn. Mae'n rhaid perfformio o leiaf **un** o'r darnau hyn fel **unawdydd**. Gellir perfformio'r darnau eraill **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau. Mae'n rhaid i gyfanswm hyd yr holl ddarnau fod rhwng **10 a 12 munud,** heb gynnwys unrhyw fylchau rhwng y darnau.

**Opsiwn B: Perfformio (14%)**

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr roi perfformiad yn cynnwys **lleiafswm o ddau** ddarn **naill ai** fel unawdydd **neu** fel rhan o ensemble **neu** gyfuniad o'r ddau. Mae'n rhaid i hyd y perfformiad cyflawn fod rhwng **6 a 8 munud,** heb gynnwys unrhyw fylchau rhwng y darnau.

Gall dysgwyr ddewis perfformio **un** o'u cyfansoddiadau eu hunain. Cynghorir dysgwyr sy'n dewis perfformio un o'u cyfansoddiadau eu hunain i ddewis darn addas gan sicrhau ei fod yn rhoi cyfle iddynt ddangos eu sgiliau perfformio gorau.

Ni chyfyngir y dysgwyr i un offeryn/llais. Fodd bynnag, nid oes yna fantais i berfformio ar fwy nag un offeryn/llais yn olynol. Efallai y bydd dysgwyr sy'n dewis canu a chyfeilio iddynt eu hunain yn cael eu hasesu am y rhannau lleisiol ac offerynnol ar yr un pryd, neu'n cael eu hasesu naill ai ar y rhan lleisiol neu'r rhan offerynnol.

Mae'n rhaid darparu copi o gerddoriaeth pob darn i'r arholwr. Pan nad yw hynny'n bosibl oherwydd natur y perfformiad, e.e. chwarae'n fyrfyfyr, mae'n rhaid darparu dalen ganllawfanwl.

Er mwyn cynorthwyo'r dysgwyr i ddewis eu cerddoriaeth ar gyfer yr elfen hon, nodir y meini prawf asesu perfformio yn **Atodiad A**. Dylai'r darnau i'w perfformio ar gyfer Safon Uwch fod ar lefel uwch na rhai ar gyfer Cerddoriaeth UG, gan ddangos mwy o ofynion technegol a dehongliadol, sy'n cyfateb i **radd 6** yr arholiadau cerddoriaeth graddedig presennol. Bydd y marc sy'n cael ei ennill am y perfformiad yn cael ei addasu'n uwch gan ddefnyddio'r tabl graddio yn Atodiad A os bydd y darn yn anoddach na gradd 6, ac yn cael ei addasu'n is os bydd yn haws na gradd 6.

© WJEC CBAC Cyf.

**Perfformiad Unawdol**

Gall dysgwyr sy'n dewis yr opsiwn hwn (gorfodol ar gyfer opsiwn A) berfformio gyda chyfeiliant **neu'n** ddigyfeiliant, ond **nid** dan arweiniad. Gall y cyfeiliant fod yn fyw neu'n drac cyfeiliant ond ni chaniateir defnyddio clic-drac na metronom. Nid oes rhaid i'r cyfeilydd fod yn sefyll yr arholiad.

**Perfformiad Ensemble**

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd sy'n dewis yr opsiwn hwn berfformio rhan **unawdol** arwyddocaol **heb** ei dyblu, fel rhan o ensemble, gyda chyfeiliant **neu'n** ddigyfeiliant, ond **heb** arweinydd. Gall y cyfeiliant fod yn fyw neu'n drac cyfeiliant ond ni chaniateir defnyddio clic-drac na metronom. Mae'n rhaid i'r ensemble gynnwys dau neu fwy o chwaraewyr; ond **nid** yw hynny'n cynnwys y cyfeilydd. Mae cyfeiliant lieder (neu sgil debyg) yn ensemble derbyniol, pan mai'r **dysgwr yw'r cyfeilydd** ond nid pan mai'r dysgwyr yw'r unawdydd. Uchafswm y perfformwyr ar gyfer grŵp ensemble yw **wyth**. Nid yw'n ofynnol i aelodau eraill yr ensemble na'r cyfeilydd sefyll yr arholiad. Os oes amheuaeth ynglŷn â'r ensemble, dylid cysylltu â CBAC am gyngor.

**Chwarae'n Fyrfyfyr**

Mae'n rhaid i'r dysgwyr sy'n dewis yr opsiwn hwn roi perfformiad chwarae'n fyrfyfyr fel ymateb i symbyliad o'u dewis eu hunain. Gellir paratoi hwn ymlaen llaw cyn yr asesiad ymarferol. (Gall symbyliad fod yn ddilyniant o gordiau, graddfa etc.) **Mae'n rhaid rhoi copi o'r symbyliad cerddorol a dalen ganllawi'r aseswr os nad oes sgôr ar gael.**

© WJEC CBAC Ltd.

## Asesu Uned 4

Nid yw'r dysgwyr yn cael perfformio'r un repertoire yn Uned 1 ac yn Uned 4. Yn yr asesiad perfformio, dylai dysgwyr ddangos:

- cywirdeb rhythm a thraw
- rhugldr y perfformiad
- sylw i gyfarwyddiadau perfformio yn cynnwys defnydd effeithiol o ddynameg
- defnydd o dempo priodol
- rheolaeth dechnegol yn cynnwys techneg, tonyddiaeth, alldaflu ac ansawdd tôn da.
- dealltwriaeth o arddull a chyd-destun
- mynegiant a dehongliad priodol, yn cynnwys brawddegu
- empathi (gyda'r cyfeilydd wrth chwarae mewn ensemble)

Mae **Atodiad A** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon yn cynnwys:

- grid asesu
- tabl o addasiadau sy'n gysylltiedig â lefel her y darn i'w berfformio
- mwy o ganllawiau ynghylch rheolaeth dechnegol
- y tablau o addasiadau i berfformiadau sy'n llai na 10 munud o hyd (opsiwn A) ac yn llai na 6 munud o hyd (opsiwn B).

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# Uned 5

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis **naill ai** Opsiwn A yn Unedau 4 a 5 **neu** Opsiwn B yn Unedau 4 a 5.

## Cyfansoddi

Opsiwn A: Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 3-6 munud
Opsiwn A: 14% o'r cymhwyster
Opsiwn A: 54 marc

Opsiwn B: Cyfanswm hyd cyfansoddiadau: 5-9 munud
Opsiwn B: 22% o'r cymhwyster
Opsiwn B: 90 marc

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan CBAC

**Opsiwn A: Cyfansoddi (14%)**

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr baratoi portffolio o **ddau** gyfansoddiad, **un** darn sy'n **para o leiaf 1 munud** y mae'n rhaid iddo gyfleu'r iaith, y technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin fel ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**. Gall y darn **naill ai** fod yn rhan gyflawn o gyfansoddiad mwy e.e. dangosiad symudiad ar ffurf sonata, **neu** ffurf fach e.e. noctwrn, fel sy'n briodol i'r briff. Mae'r **ail** gyfansoddiad, sy'n **para o leiaf 2 funud**, yn gyfansoddiad rhydd y mae'r dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar ei gyfer.

**Opsiwn B: Cyfansoddi (22%)**

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr baratoi portffolio o **dri** chyfansoddiad, **un** darn sy'n **para o leiaf 1 munud** y mae'n rhaid iddo gyfleu'r iaith, y technegau a'r confensiynau cerddorol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin fel ymateb i **friff a osodwyd gan CBAC**. Gall y darn **naill ai** fod yn rhan gyflawn o gyfansoddiad mwy e.e. dangosiad symudiad ar ffurf sonata, **neu** ffurf fach e.e. noctwrn, fel sy'n briodol i'r briff. Mae'n rhaid i'r **ail** gyfansoddiad, **sy'n para o leiaf 2 funud**, gyfleu technegau a chonfensiynau cerddorol **un** maes astudio **gwahanol** (h.y. nid Traddodiad Clasurol y Gorllewin) a bydd y **trydydd** cyfansoddiad yn gyfansoddiad rhydd fydd yn para o leiaf **2 funud**. Bydd y dysgwyr yn gosod eu briffiau eu hunain ar gyfer cyfansoddiadau dau a thri.

© WJEC CBAC Ltd.

**Opsiynau A a B**

**Cyfansoddi i friff a osodwyd gan CBAC**

Bydd y dysgwyr yn cael dewis o **bedwar** briff. Bydd y briffiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd cynnal yr asesiad. Bydd y briff bob amser yn cynnwys manylion am yr achlysur neu’r gynulleidfa a gwybodaeth gerddorol ychwanegol. Bydd dau friff ar gyfer rhannau o gyfansoddiadau mwy a dau friff ar gyfer cyfansoddiadau ffurfiau bach.
Bydd y pedwar briff yn cael eu gosod yng nghyd-destun **Traddodiad Clasurol y Gorllewin**, ac mae’n rhaid i’r ymateb i’r briff a ddewisir arwain at gyfansoddiad mewn **arddull** Glasurol Orllewinol sy’n dangos dealltwriaeth o **iaith, technegau a chonfensiynau cerddorol** y cyfnod (h.y. cyfnodau Baróc, Clasurol a Rhamantaidd) Gall y dysgwyr ddewis unrhyw arddull neu genre addas o’r cyfnod o fewn cylch gwaith y briff cyfansoddi. Ceir mwy o wybodaeth a chanllawiau ar gyfansoddi yn yr arddull Clasurol Gorllewinol yn **Atodiad B**. Mae briffiau cyfansoddi enghreifftiol wedi'u cynnwys yn y deunyddiau asesu enghreifftiol.

**Opsiwn B yn unig**

**Cyfansoddiadau sy’n gysylltiedig â maes astudio gwahanol**

Mae’n rhaid i’r dysgwyr gyfansoddi darn o gerddoriaeth sy’n gysylltiedig ag **un** maes astudio heblaw Traddodiad Clasurol y Gorllewin. Mae’n rhaid iddynt ddewis o’r rhestr isod:

Maes Astudio B: **Roc a Phop**
Maes Astudio C: **Theatr Gerdd**
Maes Astudio Ch: **Jazz**
Maes Astudio DD: **Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a’r Unfed Ganrif ar Hugain**

Mae’n ofynnol i’r dysgwyr osod eu briff eu hunain sy’n gysylltiedig â’r maes astudio; mae’n rhaid i’r briff bob amser roi manylion am y gynulleidfa neu’r achlysur y cyfansoddwyd y darn ar ei gyfer, yn ogystal â gofynion cerddorol ychwanegol. **Nid** yw’r briff ei hun yn cael ei asesu; fodd bynnag, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu hymateb cerddorol i'r briff.

© WJEC CBAC Cyf.

**Enghreifftiau o friffiau y gall dysgwyr eu gosod ar gyfer cyfansoddi mewn maes astudio:**

- Cyfansoddi cân bop i'w pherfformio mewn gŵyl gerddoriaeth leol. (Roc a Phop)

- Cyfansoddi deuawd lleisiol gyda chyfeiliant ar gyfer yr olygfa balconi mewn cynhyrchiad cerddorol newydd o 'Romeo a Juliet'. (Theatr Gerdd)

- Cyfansoddi pumawd Jazz ar gyfer gig yn y clwb Jazz lleol (Jazz)

- Cyfansoddi darn o gerddoriaeth sydd wedi ei ysbrydoli gan lun Argraffiadydd sy'n cael ei arddangos mewn oriel gelf leol. Bwriad y gerddoriaeth yw bod yn rhan o'r 'dadorchuddio' mewn cynhadledd i'r wasg. (Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain)

- Cyfansoddi pedwarawd llinynnol i fod yn rhan o agoriad gŵyl gelfyddydau Gymreig (Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain)

**Opsiynau A a B**

Mae'n rhaid i gyfansoddiadau rhydd ymateb i friff a osodir gan y dysgwyr, sy'n debyg i'r enghreifftiau uchod. Fodd bynnag, gallant fod mewn unrhyw arddull.

## Asesu Uned 5

Nid yw'r dysgwyr yn cael cyflwyno'r un darnau i'w hasesu yn Uned 2 ac yn Uned 5. Cynghorir y dysgwyr i ystyried gofynion y meini prawf marcio (Atodiad B) wrth gynllunio a chyfansoddi eu cerddoriaeth. Bydd y canlynol yn cael ei asesu:

- creu syniadau cerddorol, yn cynnwys:
    - llunio syniadau cychwynnol
    - cyflwyno syniadau
    - syniadau sy'n ymateb i'r briff a osodwyd/dewiswyd
- datblygu syniadau cerddorol, yn cynnwys:
    - deunydd thematig
    - defnyddio technegau cyfansoddi
    - cyfuniad o elfennau cerddorol er mwyn cynnig canlyniad cydlynol
- rheolaeth dechnegol a mynegiannol ar yr elfennau cerddorol yn cynnwys:
    - offerynnau a thechnoleg cerddoriaeth
    - cyfathrebu.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tystiolaeth portffolio**

Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth portffolio ar-lein drwy wefan CBAC. Sylwer, mae'n rhaid i'r recordiad o'r cyfansoddiad fod ar fformat mp3 er mwyn lleihau maint y ffeil (cyfyngir maint ffeil unigol i uchafswm o 20MB). Gellir derbyn dogfennaeth mewn PDF, Word neu unrhyw fformat arall sydd ar hyn o bryd yn gydnaws â Microsoft Office 2010. Mae'n rhaid i bob portffolio gynnwys yr eitemau isod.

1. Recordiadau o gyfansoddiadau.

2. Sgôr **neu** ddisgrifiad ysgrifenedig manwl o'r cyfansoddiadau ynghyd ag amlinelliad o'r alaw a'r cordiau a ddefnyddir

3. Log cyfansoddi nad yw'n cael ei asesu ar gyfer **pob** cyfansoddiad, sy'n amlinellu'r **broses o ddatblygu a mireinio**, y mae'n rhaid i'r athro ei lofnodi er mwyn dilysu'r broses. Mae llofnod electronig yn dderbyniol. Defnyddiwch y templed log a ddarperir ar wefan CBAC.

Mae **Atodiad B** yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr uned hon yn cynnwys:

- grid asesu
- mwy o ganllawiau ar gyfansoddi mewn arddull Clasurol Gorllewinol
- canllawiau ar gyfansoddi mewn perthynas â'r meysydd astudio eraill.

© WJEC CBAC Cyf.

# Uned 6

**Arfarnu**
Arholiadau ysgrifenedig: (tua) 2 awr 15 munud
24% o'r cymhwyster
80 marc

Bydd yr arholiad hwn yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o gerddoriaeth drwy gyfrwng **dau** faes astudio.

Maes Astudio D: **Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 2)

| | |
|---|---|
| **Naill ai:** | Y Symffoni (1830-1910) |
| **Neu:** | Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol (1800-1890) |

Maes Astudio Dd: Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain

Dewis **un** o restr A ac **un** o restr B.

Rhestr A:

| | |
|---|---|
| Llinyn 1: | Argraffiadaeth |
| Llinyn 2: | Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru |

Rhestr B:

| | |
|---|---|
| Llinyn 3: | Cerddoriaeth Boblogaidd yng Nghymru |
| Llinyn 4: | Theatr Gerdd Americanaidd |
| Llinyn 5: | Cewri Jazz |

© WJEC CBAC Ltd.

## **Maes Astudio D: Traddodiad Clasurol y Gorllewin** (Rhan 2)

### **Naill ai: Y Symffoni** (1830-1910)

Bydd y dysgwyr yn astudio datblygiad y symffoni ar gyfer arholiad Uned 6. Bydd hyn yn cynnwys **un** gwaith gosod:

**I'w arholi tan Haf 2026:**
***Symffoni Rhif 1 yn C Leiaf, opus 68, Symudiad 4:*** Brahms
**I'w arholi o Haf 2027:**
***Symffoni Rhif 1 yn C Leiaf, opus 68, Symudiad 1:*** Brahms
(Cyfres *Eulenberg Miniature Scores* ISBN: 3-7957-6682-6)

Mae'n rhaid mynd â chopïau glân (dim anodiadau) o'r gwaith gosod i'r arholiad. Mae'n ofynnol i'r dysgwyr astudio datblygiad y symffoni o 1830 drwy'r cyfnod Rhamantaidd at droad yr ugeinfed ganrif. Bydd hyn yn rhoi sail ar gyfer astudiaeth ehangach o'r cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut datblygodd y genre symffoni, gan ddefnyddio nifer o enghreifftiau gan wahanol gyfansoddwyr.

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol yn y symffoni, yn cynnwys:
    - adeiledd (e.e. ffurf sonata, ffurfiau symudiadau araf, miniwét a thrio a scherzo, sonata rondo, ffurfiau amrywiad, ffurfiau cylchol, a ffurfiau rhaglennol)
    - cyweiredd (e.e. cyweiriau perthnasol a'u swyddogaeth yn yr adeiledd)
    - gwead (e.e. monoffoni, cyfuniadau cymhleth o linellau cerddorol fel homoffoni a pholyffoni, efelychiant a gwrthbwynt a ffiwg)
    - alaw a datblygiad thematig (e.e. adeiledd brawddegau, dyfeisiau melodig fel dilyniant, ffiguroliad, addurniad, estyn a chywasgu deunydd thematig, ymestyn/darnio thema, cyfuniadau o themâu, trawsnodi, ailharmoneiddio ac ad-drefnu thema ar gyfer cerddorfa)
    - ansawdd (e.e. cyferbyniad ac amrywiaeth o liwiau tôn a thechnegau offerynnol, a chyfuniad o ansoddau)
    - iaith harmonig (e.e. dilyniant harmonig nodweddiadol, defnyddio diweddebau, defnyddio 7fed y llywydd, 7fed eilaidd a chywasg, cylch 5edau, cordiau Neapolitaidd, 6ed estynedig, cromatyddiaeth, trawsgyweirio a thonyddeiddio)
    - tempo, mesur a rhythm (e.e. defnyddio acenion, arwyddion amser syml a chyfansawdd, rhythmau nodweddiadol fel rhythmau dot, hemiola, tripledi a ffyrdd eraill o rannu curiad, trawsacennu a chyfarwyddiadau perfformio)
    - defnydd mynegiannol o ddynameg
- defnyddio offeryniaeth a datblygiad y gerddorfa yn ystod y cyfnod yn cynnwys:
    - pwysigrwydd cynyddol yr adran chwythbrennau wrth i ddeunydd pwysicach ac annibynnol gael ei roi iddynt
    - datblygiadau o ran trefniannau cerddorfaol ac effeithiau cerddorfaol o ganlyniad i weithiau wedi'u comisiynu

© WJEC CBAC Cyf.

  - grymoedd cerddorfaol mwy (pres ac offerynnau taro yn arbennig)
  - soniaredd newydd (e.e. offerynnau newydd, gwelliannau technegol a defnyddio lliw offerynnol)
  - defnydd testunol o'r gerddorfa i greu ac awgrymu ystyr sylfaenol (e.e. tirluniau cerddorfaol, cerddoriaeth ddisgrifiadol, emosiwn eithafol a chynnil)
- cyfansoddwyr symffonig pwysig a gweithiau oedd yn gerrig milltir yn y cyfnod
- sut a pham cafodd y symffonïau eu cyfansoddi yn ystod y cyfnod (e.e. nawdd a chynnydd yn nifer y cyngherddau cyhoeddus)
- sut datblygodd y symffoni yn ystod y cyfnod (e.e. hyd, nifer y symudiadau a ffurfiau newydd)
- symffoni destunol/cathl symffonig
- darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig
- darllen **ac** ysgrifennu hen nodiant, yn cynnwys:
  - cleff y trebl a chleff y bas mewn amser syml a chyfansawdd
  - pob arwydd cywair
  - cordiau a symbolau cordiau cysylltiedig
  - geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â'r maes astudio.

**Neu: Cerddoriaeth Gorawl Grefyddol** (1800-1890)

Bydd y dysgwyr yn astudio datblygiad cerddoriaeth gorawl grefyddol ar gyfer arholiad Uned 6. Bydd hyn yn cynnwys **un** gwaith gosod:

**I'w arholi tan Haf 2026:**
***Requiem,*** (*Dies Irae,* yn cynnwys *Tuba mirum, Liber scriptus, Quid sum miser, Rex tremendae a Recordare yn gorffen ym mar 446)*, Verdi

**I'w arholi o Haf 2027:**
***Requiem,*** *(Ingemisco, Confutatis, Lacrymosa, Domine Jesu Christe, Sanctus)*, Verdi

(Cyfres *Eulenburg Miniature Score* ISBN: 978-3-7957-6918-5)

Mae'n rhaid mynd â chopïau glân (dim anodiadau) o'r gwaith gosod i'r arholiad. Mae'n ofynnol i'r dysgwyr astudio datblygiad y dioddefaint, oratorio, cantata a'r offeren o 1800 drwy'r cyfnod Rhamantaidd hyd at 1890. Bydd hyn yn gosod sylfaen ar gyfer astudiaeth ehangach o'r cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut datblygodd y genre corawl gan ddefnyddio nifer o enghreifftiau gan wahanol gyfansoddwyr.

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol yn y symffoni, yn cynnwys:
  - adeiledd (e.e. kyrie, gloria, credo, sanctus, benedictus ac agnus dei, adroddgan, aria, cytgan, deuawdau ac ensemble)
  - cyweiredd (e.e. cyweiriau perthnasol a'u swyddogaeth yn yr adeiledd)
  - gwead (e.e. monoffoni, cyfuniadau cymhleth o linellau cerddorol fel homoffoni a pholyffoni, efelychiant a gwrthbwynt a ffiwg)
  - alaw a datblygiad thematig (e.e. adeiledd brawddegau, dyfeisiau melodig fel dilyniant, ffiguroliad, addurniad, estyn a chywasgu deunydd thematig, ymestyn/darnio thema, cyfuniadau o themâu, trawsnodi, ailharmoneiddio ac ad-drefnu thema ar gyfer y gerddorfa)
  - ansawdd (e.e. cyferbyniad ac amrywiaeth o liwiau tôn offerynnol a thechnegau, a chyfuniad o ansoddau)
  - iaith harmonig (e.e. dilyniant harmonig nodweddiadol, defnyddio diweddebau, defnyddio 7fed y llywydd, 7fed eilaidd a chywasg, cylch

© WJEC CBAC Ltd.

5edau, cordiau Neapolitaidd, 6ed estynedig, cromatyddiaeth, trawsgyweirio a thonyddeiddio)
  - tempo, mesur a rhythm (e.e. defnyddio acenion, arwyddion amser syml a chyfansawdd, rhythmau nodweddiadol fel rhythmau dot, hemiola, tripledi a ffyrdd eraill o rannu curiad, trawsacennu a chyfarwyddiadau perfformio)
  - defnydd mynegiannol o ddynameg
- defnyddio grymoedd offerynnol a lleisiol a datblygiad y gerddorfa yn ystod y cyfnod yn cynnwys:
  - gwahanol gyfuniadau o leisiau yn cynnwys y defnydd o'r corws fel yr adroddwr neu'r dyrfa a chymeriadu unawdol
  - pwysigrwydd cynyddol yr adran chwythbrennau wrth i ddeunydd pwysicach ac annibynnol gael ei roi iddynt
  - datblygiadau o ran trefniannau cerddorfaol ac effeithiau cerddorfaol o ganlyniad i weithiau wedi'u comisiynu
  - grymoedd cerddorfaol a lleisiol mwy (pres ac offerynnau taro yn arbennig)
  - soniaredd newydd (e.e. offerynnau newydd, gwelliannau technegol a defnyddio lliw offerynnol)
- y berthynas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth
- cyfansoddwyr corawl pwysig a gweithiau oedd yn gerrig milltir yn y cyfnod
- sut a pham cafodd cerddoriaeth gorawl ei chomisiynu yn ystod y cyfnod (e.e. nawdd a chynnydd yn nifer y cyngherddau cyhoeddus)
- sut datblygodd cerddoriaeth gorawl yn ystod y cyfnod (e.e. hyd, nifer y symudiadau a ffurfiau newydd)
- darllen cleff yr alto a chleff y tenor fel y bo'n berthnasol i'r gweithiau gosod yn unig
- darllen **ac** ysgrifennu hen nodiant, yn cynnwys:
  - cleff y trebl a chleff y bas mewn amser syml a chyfansawdd
  - pob arwydd cywair
  - cordiau a symbolau cordiau cysylltiedig
  - geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â'r maes astudio.

| **Asesu Maes Astudio D** (40 marc) |
|---|

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr ateb **tri chwestiwn** ar faes astudio D:

- cwestiwn ar ddyfyniad o gerddoriaeth heb ei baratoi o'r cyfnod Rhamantaidd gyda sgôr fras (bydd hyn yr un fath yn achos y ddau opsiwn)
- cwestiwn dadansoddi manwl ar y gwaith gosod a ddewiswyd
- cwestiwn traethawd sy'n asesu gwybodaeth am ddatblygiad y symffoni/cerddoriaeth gorawl yn y cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol ehangach.

Asesir ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn y cwestiwn hwn.

## Maes Astudio DD: Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'r dysgwyr yn dewis cyfanswm o **ddau** linyn, **un** o restr A ac **un** o restr B.

## Rhestr A

### Naill ai: Llinyn 1: Argraffiadaeth

Bydd y dysgwyr yn astudio gweithiau gosod gan **ddau** gyfansoddwr Argraffiadaeth cynrychioliadol, Claude Debussy a Maurice Ravel, fel sail ar gyfer deall sut mae cerddoriaeth wedi cael ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Bydd y dysgwyr yn astudio'r gwaith gosod canlynol yn drylwyr:

**I'w arholi tan Haf 2026:**
***Reflets Dans L'eau, (Images Cyfrol 1), Piano:*** Debussy
(IMC **ISMN:** 979-0-0440-1108-8)

**I'w arholi o Haf 2027:**
*Pour Les Funerailles d'un Soldat,* Lili Boulanger

Bydd y dysgwyr yn astudio dau ddarn arall fel gweithiau gosod atodol er mwyn cymharu agweddau o arddull a'r defnydd o elfennau cerddorol â'r prif waith gosod a nodir uchod.

***Colloque Sentimental, Llais a Phiano:*** Debussy
(Durand **ISMN:** 979-0-0440-1117-9)
***Mother Goose, Prelude*** (o adran agoriadol y bale, **nid** y gyfres**), *cerddorfa*:** Ravel
(Durand ISBN 978-1-5186-5605-7)

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn cyfansoddiad:
  - adeiledd (e.e. sut mae ffurfiau cynharach wedi'u haddasu/datblygu yn yr 20fed ganrif, ffurf bwa, a sut mae absenoldeb diweddebau glân a chyweiredd wedi effeithio ar adeiledd)
  - cyweiredd (e.e. cyweiredd estynedig a pherthynas cyweiriau pell yn cynnwys octatonyddiaeth)
  - gwead (e.e. monoffonig, homoffonig, polyffonig a heteroffonig)
  - ansawdd (e.e. defnyddio grymoedd offerynnol/lleisiol, technegau perfformio a chynaniad newydd neu anarferol)
  - alaw (e.e. telynegiaeth, a dyfeisiau melodig)
  - iaith harmonig (e.e. triadau, cordiau estynedig fel 7fedau/9fedau, harmoni moddol a thrin anghyseinedd)
  - tempo, mesur a rhythm (e.e. mesur afreolaidd a rhythmau ychwanegol)
  - dynameg
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â llinyn yr astudiaeth.

© WJEC CBAC Ltd.

## Neu: Llinyn 2: Cerddoriaeth Siambr yng Nghymru.

Bydd y dysgwyr yn astudio gweithiau gosod gan **dri** chyfansoddwr Cerddoriaeth Siambr cynrychioliadol, Lynne Plowman, Andrew Wilson-Dickson a Rhian Samuel, fel sylfaen ar gyfer deall sut mae cerddoriaeth yn cael ei chreu, datblygu a'i pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd y dysgwyr yn astudio'r gwaith gosod canlynol yn drylwyr:

**I'w arholi tan Haf 2026:**
***Night Dances, Ffliwt a Phiano:*** Plowman
**I'w arholi o Haf 2027:**
***From Summer to Autumn:*** Ben Heneghan

Bydd y dysgwyr yn astudio dau ddarn arall fel gweithiau gosod atodol er mwyn cymharu agweddau o arddull a'r defnydd o elfennau cerddorol â'r prif waith gosod a nodir uchod.

***Tango Passacaglia, Ffliwt a Phiano:*** Wilson-Dickson
***Ariel, Ffliwt a Phiano*****:** Samuel (Stainer & Bell, STAIN01359)

Mae'r tri darn ar gael ar y CD canlynol:

***Ariel*** (Catherine Handley, ffliwt ac Andrew Wilson-Dickson, piano)

Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:

- sut defnyddir elfennau cerddorol mewn cyfansoddiad:
  - adeiledd (e.e. sut defnyddiwyd elfennau fel traw, rhythm, tempo, dynameg a gwead i ddarparu cerddoriaeth sydd ag ymdeimlad o adeiledd iddi, yn cynnwys defnyddio ailadrodd i greu adeiledd ac osgoi ailadrodd, sut gall elfennau aleatoraidd ddylanwadu ar adeiledd)
  - cyweiredd (e.e. cyweiredd, cyweiredd estynedig, digyweiredd, moddau, perthynas rhwng cyweiriau a dull cyfansoddwyr unigol o drefnu cyweiredd)
  - gwead (e.e. sut gellir defnyddio gwahanol weadau gan y cyfansoddwr)
  - ansawdd (e.e. sut mae'r cyfansoddwr yn defnyddio gwahanol ansoddau offerynnol)
  - alaw (e.e. pwysigrwydd cyfyngau penodol yn adeiladwaith alaw, datblygu motiffau a themâu ac alaw heb swyddogaeth thematig)
  - iaith harmonig (e.e. triadau, cordiau estynedig fel 7fedau/9fedau, harmoni moddol, octatonyddiaeth, a thrin anghyseinedd, cordiau clwstwr a chordiau 12 nodyn)
  - tempo, mesur a rhythm (e.e. datblygiad rhythmig, rhyngweithio rhythmig rhwng offerynnau, newidiadau o ran curiad a thempo, 'trawsgyweirio mydryddol', lluosrythmau a rhythm difydr mewn cerddoriaeth aleatoraidd)
  - dynameg
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â llinyn yr astudiaeth.

© WJEC CBAC Cyf.

**Asesu Llinyn 1 neu Linyn 2** (20 marc)

Mae'n ofynnol bod y dysgwyr yn ateb **un** cwestiwn ar **naill ai** linyn 1 **neu** linyn 2:

- Dadansoddi'r prif waith gosod yn cynnwys cymharu agwedd benodol o ran arddull neu elfen/elfennau cerddorol ag un o'r darnau atodol neu'r ddau.

**Rhestr B**

## Naill ai: Llinyn 4: Cerddoriaeth Boblogaidd yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn astudio **cerddoriaeth** *Gruff Rhys*, *Super Furry Animals, The Manic Street Preachers* a *Kizzy Crawford* fel sylfaen ar gyfer deall sut mae cerddoriaeth yn cael ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain. Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd drwy gyfrwng maes astudio B (**Roc a Phop**) ar lefel UG.

Ers ei ffurfio yn 1986, mae'r Manic Street Preachers wedi cynhyrchu corff sylweddol o gerddoriaeth roc sy'n seiliedig ar y profiad o Gymru ac sy'n adlewyrchu hynny. Mae eu cerddoriaeth, y mae elfen wleidyddol yn perthyn iddi'n aml, yn dangos cysondeb ac amrywiaeth yn eu halbymau niferus. Mae'r berthynas rhwng y gair a'r gerddoriaeth yn aml yn arbennig o ddiddorol. Mae'r Super Furry Animals a ffurfiwyd yn 1996 yn perthyn i genhedlaeth ychydig yn ddiweddarach o gerddorion roc, ac un agwedd hanfodol ar eu gwaith oedd cyfuno geiriau Saesneg a Chymraeg. Mae eu cerddoriaeth yn dangos hyd yn oed mwy o amrywiaeth na cherddoriaeth y Manics, a hynny eto ar nifer o albymau, ac mae hon yn nodwedd sy'n parhau yng ngwaith unigol y Super Furry Animal, Gruff Rhys. Mae Kizzy Crawford yn gantores a chyfansoddwraig o Gymru sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd sy'n perfformio nifer o ganeuon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n cyfuno dylanwadau soul a jazz er mwyn creu arddull unigryw a ffres.

**Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:**

- sut defnyddir elfennau cerddorol i greu arddull unigol
- sut mae'r arddull wedi newid gydag amser
- y berthynas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth
- y defnydd o offerynnau, lleisiau a thechnoleg cerddoriaeth
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr, yn cynnwys hunaniaeth genedlaethol y gerddoriaeth
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â llinyn yr astudiaeth.

## Neu: Llinyn 4: Theatr Gerdd Americanaidd

Bydd y dysgwyr yn astudio sioeau cerdd *Stephen Sondheim* a *Stephen Schwartz* fel sylfaen ar gyfer deall sut mae cerddoriaeth yn cael ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn yr ugeinfed ganrif. Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd drwy gyfrwng maes astudio C (**Theatr Gerdd**) ar lefel UG.

Mae Stephen Sondheim yn gyfansoddwr ac awdur geiriau Americanaidd sydd wedi ysgrifennu amrywiaeth ryfeddol o sioeau cerdd, gan ddisgrifio ei hun fel 'cynnyrch Broadway'. Mae ei waith wedi gosod y safon ar gyfer theatr gerdd Americanaidd fodern, ac mae ei gyfraniad heb ei ail gan iddo ysgrifennu cerddoriaeth a geiriau ar gyfer deuddeg o sioeau cerdd Broadway, yn ogystal â geiriau ar gyfer sioeau cerdd eraill (yn cynnwys West Side Story). Mae Stephen Schwartz yn gyfansoddwr ac awdur geiriau

© WJEC CBAC Ltd.

theatr gerdd Americanaidd sydd wedi cynhyrchu gwaith dros gyfnod o bedwar degawd. Mae ei gerddoriaeth yn cynnwys nifer o arddulliau a chafodd lwyddiant mawr yn Broadway a thu hwnt, gan ennill prif wobrau am ei waith.

**Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:**

- sut defnyddir elfennau cerddorol i greu arddull unigol
- sut mae'r arddull wedi newid gydag amser
- y berthynas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth
- y defnydd o offerynnau, lleisiau a thechnoleg cerddoriaeth
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â llinyn yr astudiaeth.

## Neu: Llinyn 5: Cewri Jazz

Bydd y dysgwyr yn astudio gweithiau **dau** gyfansoddwr Jazz, *Duke Ellington* a *Miles Davis,* fel sail ar gyfer deall sut mae cerddoriaeth wedi cael ei chreu, ei datblygu a'i pherfformio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn yr ugeinfed ganrif. Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd drwy gyfrwng maes astudio Ch (**Jazz**) ar lefel UG.

Mae gan Duke Ellington le unigryw yn hanes Jazz gan ei fod yn cael ei gofio fel cyfansoddwr yn ogystal ag am ei sgiliau perfformio. Roedd yn anturus ac arbrofol yn ei gyfansoddiadau ar gyfer offerynnau, a chyfansoddodd er mwyn amlygu'r prif berfformwyr yn ei fand, gan gyfansoddi ar gyfer eu doniau unigol yn ei drefniannau cerddorol. Ystyrir yn gyffredinol bod Miles Davis yn un o 'fawrion' y byd Jazz. Roedd yn drwmpedwr a bu'n gyfrifol am sefydlu sawl tuedd newydd ac roedd yn arbennig o adnabyddus am ei arddull jazz telynegol 'cŵl'. Ond, roedd yn newid ei arddull yn gyson ac mae'n cael ei gofio hefyd fel cyfansoddwr arloesol yr oedd ei recordiadau efallai'n fwy dylanwadol nag unrhyw gerddor jazz arall ers cychwyn yr 1950au.

**Mae'n rhaid i'r dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o:**

- sut defnyddir elfennau cerddorol i greu arddull unigol
- sut mae'r arddull wedi newid gydag amser
- y berthynas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth, pan fo hynny'n briodol
- y defnydd o offerynnau a lleisiau
- effaith cynulleidfa, amser a lleoliad ar y ffordd caiff cerddoriaeth ei chreu
- pwrpas a bwriad y cyfansoddwr/perfformiwr
- geirfa a therminoleg gerddorol mewn perthynas â llinyn yr astudiaeth.

**Asesu Llinynnau 3 i 5** (20 marc)

Mae'n ofynnol bod y dysgwyr yn ateb **dau** gwestiwn ar **naill ai** linyn 3 **neu** linyn 4 **neu** linyn 5.

- cwestiwn dirnadaeth glywedol ar ddyfyniad heb ei baratoi
- cwestiwn sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o arddull gerddorol y cyfansoddwyr/artistiaid.

© WJEC CBAC Cyf.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dehongli syniadau cerddorol drwy berfformio, gyda rheolaeth dechnegol a mynegiannol a dealltwriaeth o arddull a chyd-destun.

**AA2**
Creu a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth a threfn dechnegol a mynegiannol

**AA3**
Dangos a chymhwyso gwybodaeth gerddorol

**AA4**
Defnyddio sgiliau dadansoddi ac arfarnu i wneud penderfyniadau gwerthusol a beirniadol ynglŷn â cherddoriaeth.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

Mae'n rhaid i ddysgwyr ddewis **naill ai** Opsiwn A **neu** Opsiwn B.

**Opsiwn A**

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 12% (30%) | | | | 12% |
| **UG Uned 2** | | 12% (30%) | | | 12% |
| **UG Uned 3** | | | 6% (15%) | 10% (25%) | 16% |
| **U2 Uned 4** | 22% | | | | 22% |
| **U2 Uned 5** | | 14% | | | 14% |
| **U2 Uned 6** | | | 4% | 20% | 24% |
| **Pwysoli cyffredinol** | 34% | 26% | 10% | 30% | 100% |

**Opsiwn B**

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 12% (30%) | | | | 12% |
| **UG Uned 2** | | 12% (30%) | | | 12% |
| **UG Uned 3** | | | 6% (15%) | 10% (25%) | 16% |
| **U2 Uned 4** | 14% | | | | 14% |
| **U2 Uned 5** | | 22% | | | 22% |
| **U2 Uned 6** | | | 4% | 20% | 24% |
| **Pwysoli cyffredinol** | 26% | 34% | 10% | 30% | 100% |

© WJEC CBAC Ltd.

# 3.2 Trefniadau ar gyfer asesu di-arholiad

Mae'r trefniadau canlynol ar gyfer asesu di-arholiad yn Unedau 1, 2 ,4 a 5.

## Unedau 1 a 4: Perfformio

Mae’r unedau hyn yn cael eu hasesu’n allanol gan **arholwr ymweld.**

**Dewis repertoire** Bydd pob dysgwr yn dewis y darnau y byddant yn eu perfformio ar gyfer yr asesiad, yn dilyn trafodaeth â’r ganolfan.

Ar gyfer Opsiwn A U2, mae’n rhaid perfformio o leiaf **un** darn fel unawdydd. Nid yw dysgwyr yn cael perfformio'r un repertoire ar gyfer Uned 1 ac Uned 4.

Pan fo dysgwr yn dewis perfformio ar offeryn anarferol neu offeryn nad yw’n safonol, mae’n rhaid i’r ganolfan roi enw’r offeryn i CBAC a manylion am y repertoire fydd yn cael ei berfformio o leiaf bythefnos cyn yr asesiad, er mwyn sicrhau bod yr arholwr yn gyfarwydd â’r repertoire a gofynion technegol a gofynion perfformio’r offeryn. Mae unrhyw offeryn nad oes arholiad cerddoriaeth graddedig ar ei gyfer yn cael ei ystyried yn offeryn anarferol neu offeryn nad yw’n safonol. Os nad ydych yn sicr beth yw offeryn anarferol, cysylltwch â CBAC i gael cyngor. Gallai methu cydymffurfio â hyn arwain at ohirio’r asesu.

**Asesu**

Mae Unedau 1 a 4 yn asesu AA1 yn ei gyfanrwydd.

- Cyfanswm marciau **Uned 1** yw **60**.
- Mae pob darn a berfformir yn cael ei farcio allan o **30**; pan fo **mwy na dau** ddarn yn cael eu cynnig, mae'r cyfanswm marciau yn cael ei rannu â nifer y darnau a'i luosi â dau, er mwyn sefydlu marc terfynol allan o 60.
- Cyfanswm marciau **Uned 4 opsiwn A** yw **90**.
- Mae pob darn a berfformir yn cael ei farcio allan o **30**; pan fo **mwy na thri** darn yn cael eu cynnig, mae'r cyfanswm marciau yn cael ei rannu â nifer y darnau a'i luosi â thri, er mwyn sefydlu marc terfynol allan o 90.
- Cyfanswm marciau **Uned 4 opsiwn B** yw **60**.
- Mae pob darn a berfformir yn cael ei farcio allan o **30**; pan fo **mwy na dau** ddarn yn cael eu cynnig, mae'r cyfanswm marciau yn cael ei rannu â nifer y darnau a'i luosi â dau, er mwyn sefydlu marc terfynol allan o 60.

- Bydd y perfformiadau’n cael eu hasesu’n allanol yn **fyw** gan **arholwr ymweld**

- Bydd yr arholwr yn asesu’r perfformiadau gan ddefnyddio’r meini prawf marcio a’r canllawiau technegol sydd i'w cael yn Atodiad A y fanyleb.
- Bydd lefel anhawster **pob** darn yn cael ei ystyried gan yr arholwr, a bydd marciau ar gyfer **pob** darn yn cael eu haddasu gan ddefnyddio’r tablau graddoli yn Atodiad A.
- Gradd 5 neu gyfatebol yw’r safon angenrheidiol ar gyfer Cerddoriaeth UG.
- Gradd 6 neu gyfatebol yw’r safon angenrheidiol ar gyfer Cerddoriaeth Safon Uwch.

© WJEC CBAC Cyf.

- Mae'n hanfodol bod cyfanswm amser perfformio **Uned 1 ac Uned 4 opsiwn B** yn **6 munud o leiaf**. Mae'r rheoleiddiwr wedi cadarnhau bod rhaid cosbi unrhyw gyflwyniad fydd yn llai na 6 munud

- **Mae perfformiad sy'n gyfanswm o 6 munud** yn 100% o ofyniad asesu Uned 1 ac Uned 4B. Os yw perfformiad cyfan ymgeisydd yn llai na 6 munud o hyd, yna cyfran o'r marc cychwynnol a ddyfernir i gyfateb i'r gyfran o'r gofyniad asesu a gwblhawyd. Dyma'r **marc wedi'i addasu**. Yr arholwr ymweld fydd yn cyfrifo'r marc wedi'i addasu gan gynyddu fesul 30 eiliad fel sydd i'w weld yn y tabl isod.

| **Uned 1 ac Uned 4B**<br>**Cyfanswm amser y perfformiad** (munudau ac eiliadau) | **Marc wedi'i addasu** |
|---|---|
| 5:30 i 5:59 | $^{11}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 5:00 i 5:29 | $^{10}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 4:30 i 4:59 | $^{9}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 4:00 i 4:29 | $^{8}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 3:30 i 3:59 | $^{7}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 3:00 i 3:29 | $^{6}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 2:30 i 2:59 | $^{5}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 2:00 i 2:29 | $^{4}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 1:30 i 1:59 | $^{3}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 1:00 I 1:29 | $^{2}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 0:30 I 0:59 | $^{1}/_{12}$ o'r marc cychwynnol |
| 0:00 I 0:29 | 0 marc |

Mae siart trawsnewid marciau i'w weld, er gwybodaeth, yn **Atodiad A.**

- Ni ddylai'r perfformiad bara mwy na 8 munud. Nid oes cosb am berfformiadau sy'n para mwy na hynny. Fodd bynnag, gall yr arholwr ofyn i'r ymgeisydd roi'r gorau i chwarae ar ôl 9 munud.

- Mae'n hanfodol bod cyfanswm amser perfformio **Uned 4 opsiwn A** yn **10 munud o leiaf**. Mae'r rheoleiddiwr wedi cadarnhau bod rhaid cosbi unrhyw gyflwyniad fydd yn llai na 10 munud.

- **Mae perfformiad sy'n gyfanswm o 10 munud** yn 100% o'r gofyniad asesu. Os yw perfformiad cyfan ymgeisydd yn llai na 10 munud o hyd, yna cyfran o'r marc cychwynnol a ddyfernir i gyfateb i'r gyfran o'r gofyniad asesu a gwblhawyd. Dyma'r **marc wedi'i addasu**. Yr arholwr ymweld fydd yn cyfrifo'r marc wedi'i addasu gan gynyddu fesul 30 eiliad fel sydd i'w weld yn y tabl gyferbyn.

| **Uned 4A**<br>**Cyfanswm amser y perfformiad** (munudau ac eiliadau) | **Marc wedi'i addasu** |
|---|---|
| 9:30 i 9:59 | 95% o'r marc cychwynnol |
| 9:00 i 9:29 | 90% o'r marc cychwynnol |
| 8:30 i 8:59 | 85% o'r marc cychwynnol |
| 8:00 i 8:29 | 80% o'r marc cychwynnol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| 7:30 i 7:59 | 75% o’r marc cychwynnol |
| 7:00 i 7:29 | 70% o’r marc cychwynnol |
| 6:30 i 6:59 | 65% o’r marc cychwynnol |
| 6:00 i 6:29 | 60% o’r marc cychwynnol |
| 5:30 i 5:59 | 55% o’r marc cychwynnol |
| 5:00 i 5:29 | 50% o’r marc cychwynnol |
| 4:30 i 4:59 | 45% o’r marc cychwynnol |
| 4:00 i 4:29 | 40% o’r marc cychwynnol |
| 3:30 i 3:59 | 35% o’r marc cychwynnol |
| 3:00 i 3:29 | 30% o’r marc cychwynnol |
| 2:30 i 2:59 | 25% o’r marc cychwynnol |
| 2:00 i 2:29 | 20% o’r marc cychwynnol |
| 1:30 i 1:59 | 15% o’r marc cychwynnol |
| 1:00 i 1:29 | 10% o’r marc cychwynnol |
| 0:30 i 0:59 | 5% o’r marc cychwynnol |
| 0:00 i 0:29 | 0 marc |

Mae siart trawsnewid marciau i’w weld, er gwybodaeth, yn **Atodiad A.**

- Ni ddylai'r perfformiad bara mwy na 12 munud. Nid oes cosb am berfformiadau sy'n para mwy na hynny. Fodd bynnag, gall yr arholwr ofyn i’r ymgeisydd roi’r gorau i chwarae ar ôl 13 munud.
- Bydd yr arholwyr yn defnyddio barn broffesiynol i asesu manwl gywirdeb unrhyw ddarn a berfformir heb i sgôr neu ddalen ganllawgael eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd 3 marc yn cael eu tynnu hefyd oddi ar gyfanswm pob darn a gyflwynir heb sgôr neu ddalen ganllaw gan nad oedd yn bosibl gwirio ei fanwl gywirdeb yn llawn.
- Os bydd dysgwr yn baglu ar ddechrau darn, caniateir iddo ailddechrau unwaith (yn achos pob darn) ac ni fydd hynny’n effeithio ar y marc.
- Bydd yr arholiadau’n cael eu trefnu ar ddyddiad sy’n gyfleus i’r ganolfan, a bydd hynny rywbryd rhwng **Mawrth a Mai** yn ystod y flwyddyn academaidd y mae’r dysgwr yn cwblhau’r cymhwyster.
- Oherwydd bod cerddoriaeth UG a Safon Uwch yn asesu perfformiadau, **ni** chaniateir defnyddio clic-drac na metronom yn ystod yr asesiad.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tystiolaeth asesu**

Mae'n rhaid i ganolfannau lenwi taflenni marciau'r ganolfan a'r ymgeiswyr unigol gydag enwau, rhifau ymgeiswyr a rhestr o'r repertoire fydd yn cael ei berfformio yn yr arholiad. Ar gyfer Uned 4, mae'n rhaid nodi hefyd ar y daflen farciau enwau'r darnau a berfformiwyd gan yr ymgeiswyr ar gyfer Uned 1. Mae'n rhaid cyflwyno'r rhain i'r arholwr ynghyd â threfn y rhaglen ar **ddechrau'r** sesiwn. Bydd **sain** yr holl berfformiadau'n cael ei **recordio** gan CBAC ac yn cael ei gadw fel tystiolaeth o'r perfformiad, yn ogystal â sgôr neu ddalen ganllawar gyfer pob darn. Sylwer, bydd yr arholwr yn cadw'r gerddoriaeth ar ôl i'r arholiad orffen. Felly, fe'ch cynghorir i ddarparu llungopïau o'r gerddoriaeth, fydd yn cael eu dinistrio gan CBAC yn ddiweddarach.

## Unedau 2 a 5: Cyfansoddi

Mae'r unedau hyn yn cael eu **hasesu'n allanol** gan CBAC. Nid yw'r dysgwyr yn cael cyflwyno'r un darnau i'w hasesu yn Uned 2 ac yn Uned 5.

**Briffiau cyfansoddi**

Bydd y briffiau a osodir yn allanol yn cael eu rhyddhau i ganolfannau yn ystod wythnos gyntaf Medi yn ystod blwyddyn academaidd yr asesiad. Bydd yna ddewis o **bedwar** briff ar gyfer UG a **phedwar** briff ar gyfer U2. Bydd y briffiau yn wahanol bob blwyddyn ond byddant bob amser yn cynnwys manylion ynglŷn â **naill ai'r** achlysur **neu'r** gynulleidfa y dylid cyfansoddi'r darn ar eu cyfer ynghyd â gwybodaeth gerddorol ychwanegol.

Ar gyfer **Uned 2 ac Uned 5 Opsiwn A**, bydd dysgwyr yn cyflwyno dau gyfansoddiad, ac **un** o'r rhai hynny mewn arddull Clasurol Gorllewinol ac yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd yr ail ddarn yn gyfansoddiad **rhydd**. Ar gyfer **Uned 5 Opsiwn B**, bydd dysgwyr yn cyflwyno **tri** chyfansoddiad, ac **un** o'r rhai hynny mewn arddull Clasurol Gorllewinol ac yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. Bydd yr ail gyfansoddiad yn cyfleu nodweddion cerddorol maes astudio **gwahanol**, a bydd y trydydd yn gyfansoddiad **rhydd**.

Yn achos pob opsiwn, mae o leiaf un cyfansoddiad yn galluogi i'r dysgwyr lunio eu briff eu hunain. Mae'n bwysig bod athrawon yn rhoi sylw dyledus i'r dewis o friff ar gyfer cyfansoddiad rhydd er mwyn sicrhau eu bod yn caniatáu i ddysgwyr fodloni'r amcan asesu. Nid yw'r briffiau a osodir gan y dysgwyr yn cael eu hasesu; fodd bynnag, mae eu hymateb i'r briff yn cael ei asesu. Os ydych yn ansicr ynglŷn â briffiau cyfansoddi, trowch at yr adnoddau a'r canllawiau ar y wefan a'r enghreifftiau a restrir yn Uned 5 neu gysylltu â CBAC.

**Asesu**

Mae Unedau 2 a 5 yn asesu AA1 yn ei gyfanrwydd.

- Cyfanswm marciau **Uned 2** yw **54**.
- Cyfanswm marciau **Uned 5 opsiwn A** yw **54**.
- Cyfanswm marciau **Uned 5 opsiwn B** yw **90**.
- Mae pob cyfansoddiad Clasurol Gorllewinol yn cael ei farcio allan o **18**.
- Mae pob cyfansoddiad arall yn cael ei farcio allan o **36**.

- Bydd y cyfansoddiadau'n cael eu hasesu'n allanol ac yn cael eu cyflwyno i CBAC erbyn dyddiad penodol ym mis **Mai**.
- Mae'n rhaid i'r cyfansoddiadau bara am gyfanswm o rhwng **3 a 6 munud** ar gyfer **UG** ac **opsiwn A Safon Uwch**, a **5 a 9 munud** ar gyfer **opsiwn B**.
- Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfansoddiadau sy'n fyr o'r lleiafswm amser hwn yn ddigon datblygedig i gyrraedd y bandiau marciau uchaf.

© WJEC CBAC Ltd.

- Mae'r arholwr yn cadw'r hawl i roi'r gorau i asesu portffolio cyfansoddi sy'n para **2 funud yn fwy** na'r terfyn amser.
- Pan **nad** yw dysgwr yn ymateb i'r briff a osodwyd gan CBAC, gan ddangos agweddau amlwg o'r **arddull Glasurol Orllewinol**, gan gyflwyno darn mewn arddull Roc neu Jazz er enghraifft, mae'n annhebygol y bydd y cyfansoddiad yn cyrraedd y bandiau marciau uwch. Ni fydd yn gwneud hynny gan nad yw'n ymateb yn ddigonol i'r briff a osodwyd.

**Cydnabyddiaethau**

Mae'n rhaid rhoi cydnabyddiaeth amlwg bob amser i bob ffynhonnell, fel dyfyniadau cerddorol neu samplau a gyfansoddwyd ymlaen llaw, ac mae'n rhaid nodi unrhyw waith nad yw'n waith y dysgwr yn gyfan gwbl. Mae'n rhaid rhestru pecynnau meddalwedd gydag eglurhad o sut defnyddiwyd y rhain. Bydd yr aseswr yn ystyried y wybodaeth hon wrth farcio pob cyfansoddiad. Pan fu gorddibyniaeth ar samplau/dolenni a recordiwyd ymlaen llaw, bydd hyn yn arwain at ddyfarnu marc is. Mewn achosion eithafol gallai dyfyniadau nad ydynt yn cael eu cydnabod arwain at ymchwiliad i gamymddygiad. Hefyd, mae'n rhaid i'r dysgwyr gydnabod unrhyw ddylanwadau cerddorol a ddefnyddiwyd yn y log cyfansoddi.

**Tystiolaeth asesu**

Mae'n rhaid cyflwyno cyfansoddiadau ar ffurf recordiadau ar fformat mp3 neu wav gyda naill ai sgôr wedi'i nodiannu neu ddisgrifiad ysgrifenedig manwl o'r broses gyfansoddi gydag amlinelliad cordiol a melodig. Mae'n bwysig bod canolfannau'n monitro asesu yn drylwyr er mwyn sicrhau mai gwaith y dysgwyr eu hunain yw'r gwaith a gyflwynir. Mae'n rhaid i bob dysgwr gwblhau **log cyfansoddi heb ei asesu** a llofnodi datganiad dilysu yn cadarnhau mai ei waith ei hun yw'r cyfansoddiad: mae'n rhaid i athrawon **gydlofnodi'r** log i wirio eu bod wedi **gweld y gwaith yn mynd rhagddo ar o leiaf dri achlysur** ac wedi cymryd pob cam rhesymol er mwyn dilysu hynny. Defnyddiwch y templed o log ar wefan CBAC.

**Cyflwyno gwaith**

Mae'n rhaid cyflwyno'r portffolio cyfan (recordiadau, sgorau a thaflenni log) ar-lein erbyn dyddiad penodol ym mis Mai.

© WJEC CBAC Cyf.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac uned 3 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a bydd y cymhwyster UG yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Uned 4, Uned 5 ac Uned 6 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a bydd y cymhwyster Safon Uwch yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | **Teitl** | **Codau cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Perfformio | 2660U1 | 2660N1 |
| UG Uned 2 | Cyfansoddi | 2660U2 | 2660N2 |
| UG Uned 3 | Arfarnu | 2660U3 | 2660N3 |
| U2 Uned 4 | Perfformio (Opsiwn A) | 1660U4 | 1660N4 |
| | Perfformio (Opsiwn B) | 1660U5 | 1660N5 |
| U2 Uned 5 | Cyfansoddi (Opsiwn A) | 1660U6 | 1660N6 |
| | Cyfansoddi (Opsiwn B) | 1660U7 | 1660N7 |
| U2 Uned 6 | Arfarnu | 1660U8 | 1660N8 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2660QS | 2660CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1660QS | 1660CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd Uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Uned** | **Uchafswm marciau unffurf uned** | a | b | c | d | e |
| **Uned 1 (12%)** | 60 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| **Uned 2 (12%)** | 60 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 |
| **Uned 3 (16%)** | 80 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| **Uned 4** | | | | | | |
| **Opsiwn A (22%)** | 110 | 88 | 77 | 66 | 55 | 44 |
| **Opsiwn B (14%)** | 70 | 56 | 49 | 42 | 35 | 28 |
| **Uned 5** | | | | | | |
| **Opsiwn A (14%)** | 70 | 56 | 49 | 42 | 35 | 28 |
| **Opsiwn B (22%)** | 110 | 88 | 77 | 66 | 55 | 44 |
| **Uned 6 (24%)** | 120 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm marciau unffurf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, bydd Gradd A* yn cael ei dyfarnu i ymgeiswyr sydd wedi llwyddo i gael Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer unedau U2 (270 marc unffurf).

© WJEC CBAC Cyf.

# ATODIAD A

## Meini prawf asesu ar gyfer Uned 1: Perfformio

| | **AA1**<br>**Dehongli syniadau cerddorol drwy berfformio, gyda rheolaeth dechnegol a mynegiannol a dealltwriaeth o arddull a chyd-destun** | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Cywirdeb** | **Rheolaeth Dechnegol**** | **Mynegiant a dehongli** |
| **4** | **9-10 marc**<br>• Perfformiad cywir, yn sicr o ran traw a/neu rythm*<br>• Cynnal tempo priodol drwy gydol y darn, sy'n arwain at berfformiad rhugl<br>• Yr holl gyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn gywir drwy gydol y perfformiad cyfan | **9-10 marc**<br>• Cynnal techneg sicr drwy gydol y darn<br>• Tonyddiaeth yn sicr drwy gydol y perfformiad cyfan<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu wedi eu datblygu'n dda ac wedi'u defnyddio'n effeithiol gydag amrywiadau sy'n briodol i'r repertoire | **9-10 marc**<br>• Perfformiad perswadiol sy'n dangos dealltwriaeth effeithiol o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y gynulleidfa drwy gydol y perfformiad<br>• Lefel uchel o gydberthynas â pherfformwyr eraill yn gyffredinol, lle bo'n briodol, gan arwain at berfformiad cytbwys |
| **3** | **6-8 marc**<br>• Perfformiad cywir, yn sicr o ran traw a/neu rythm* am y rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Cynnal tempo priodol am y rhan fwyaf o'r perfformiad, ond mae hyn yn effeithio ar rugler y perfformiad yn achlysurol<br>• Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn gywir am y rhan fwyaf o'r perfformiad | **6-8 marc**<br>• Cynnal techneg briodol drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Tonyddiaeth yn sicr am y rhan fwyaf o'r perfformiad gyda gwallau achlysurol<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu wedi'u datblygu ac yn cael eu defnyddio'n briodol gydag amrywiaethau yn unol â gofynion y repertoire am y rhan fwyaf o'r perfformiad | **6-8 marc**<br>• Perfformiad galluog sy'n dangos dealltwriaeth o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y gynulleidfa drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Cydberthynas â'r perfformwyr eraill y rhan fwyaf o'r amser, lle bo'n briodol, sy'n arwain at berfformiad cytbwys |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **3-5 marc**<br>• Perfformiad anghyson, yn anghywir ar brydiau o ran traw a/neu rythm*<br>• Tempo anghyson ar nifer o achlysuron yn effeithio ar rugldr y perfformiad<br>• Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn anghyson | **3-5 marc**<br>• Techneg anghyson drwy gydol y perfformiad<br>• Tonyddiaeth yn anghyson drwy gydol y perfformiad<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu yn anghyson, er bod peth ymdrech i amrywio lle bo'n briodol i'r repertoire | **3-5 marc**<br>• Perfformiad anghyson sy'n dangos ychydig o ymwybyddiaeth o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu anghyson â'r gynulleidfa drwy gydol y perfformiad<br>• Ychydig o ymdeimlad o gydberthynas â pherfformwyr eraill, lle bo'n briodol, ond nid yw'r perfformiad bob amser yn gytbwys |
| **1** | **1-2 marc**<br>• Gwallau o ran traw a/neu rythm drwy gydol y perfformiad*<br>• Oedi rheolaidd a/neu seibiannau achlysurol yn ystod y perfformiad<br>• Ymateb cyfyngedig i gyfarwyddiadau perfformio | **1-2 marc**<br>• Techneg gyfyngedig drwy gydol y perfformiad<br>• Tonyddiaeth ansicr drwy gydol y perfformiad<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu yn gyfyngedig gydag ychydig neu ddim amrywiaeth wrth gyflwyno'r repertoire | **1-2 marc**<br>• Perfformiad cyfyngedig sy'n brin o argyhoeddiad ac ymwybyddiaeth o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu cyfyngedig â'r gynulleidfa drwy gydol y perfformiad<br>• Ychydig neu ddim cydberthynas â pherfformwyr eraill, lle bo'n briodol, gan arwain at berfformiad anghytbwys |
| **0** | **0 marc**<br>• Perfformiad gwallus ac ni ddilynir y cyfarwyddiadau perfformio | **0 marc**<br>• Dim tystiolaeth o dechneg nac ansawdd tôn | **0 marc**<br>• Dim ymdeimlad o gymryd rhan, cyfathrebu, cydberthynas na dealltwriaeth o arddull neu gyfnod |

* Bydd ymgeiswyr sy'n cynnig chwarae'n fyrfyfyr yn cael eu hasesu ar p'un a ydynt yn chwarae'n gywir yn unol â'r symbyliad dynodedig, e.e. a yw'r chwarae'n fyrfyfyr yn gweddu i'r dilyniad cordiau neu'n defnyddio nodau'r raddfa a ddewiswyd. Yn ogystal â hyn, asesir ymgeiswyr ar rugldr y perfformiad a ph'un a yw'r chwarae byrfyfyr yn gydlynol o ran ei adeiledd.

**Ceir mwy o ganllawiau ar reolaeth dechnegol ar ddiwedd yr atodiad hwn

© WJEC CBAC Cyf.

## Tabl o addasiadau ar gyfer lefel anhawster y darnau

Penderfynir ar lefel anhawster **pob** darn yn unol â'r arholiadau cerddoriaeth graddedig. Y safon ofynnol ar gyfer cerddoriaeth UG yw gradd 5. Mae'r raddfa yn cymhwyso addasiadau canran penodol sy'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf ar gyfer gwaith sydd naill ai'n uwch neu'n is na'r safon.

| **Marc crai ar gyfer pob darn a berfformiwyd** | **Lefel anhawster** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Is na'r safon: gradd 3 ac is** | **Is na'r safon: gradd 4** | **Cyfateb i'r safon: gradd 5** | **Uwch na'r safon: gradd 6 ac uwch** |
| 30 | 26 | 27 | 30 | 30 |
| 29 | 25 | 26 | 29 | 30 |
| 28 | 24 | 25 | 28 | 30 |
| 27 | 23 | 24 | 27 | 30 |
| 26 | 22 | 23 | 26 | 29 |
| 25 | 21 | 23 | 25 | 28 |
| 24 | 20 | 22 | 24 | 26 |
| 23 | 20 | 21 | 23 | 25 |
| 22 | 19 | 20 | 22 | 24 |
| 21 | 18 | 19 | 21 | 23 |
| 20 | 17 | 18 | 20 | 22 |
| 19 | 16 | 17 | 19 | 21 |
| 18 | 15 | 16 | 18 | 20 |
| 17 | 14 | 15 | 17 | 19 |
| 16 | 14 | 14 | 16 | 18 |
| 15 | 13 | 14 | 15 | 17 |
| 14 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 13 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 12 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 11 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 10 | 9 | 9 | 10 | 11 |
| 9 | 8 | 8 | 9 | 10 |
| 8 | 7 | 7 | 8 | 9 |
| 7 | 6 | 6 | 7 | 8 |
| 6 | 5 | 5 | 6 | 7 |
| 5 | 4 | 5 | 5 | 6 |
| 4 | 3 | 4 | 4 | 4 |
| 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

© WJEC CBAC Ltd.

## Meini prawf asesu ar gyfer Uned 4: Perfformio

| AA1<br>Dehongli syniadau cerddorol drwy berfformio, gyda rheolaeth dechnegol a mynegiannol a dealltwriaeth o arddull a chyd-destun. | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Cywirdeb** | **Rheolaeth Dechnegol**** | **Mynegiant a dehongli** |
| **4** | **9-10 marc**<br>• Perfformiad cywir, yn sicr o ran traw a/neu rythm*<br>• Cynnal tempo priodol drwy gydol y darn, gan arwain at berfformiad rhugl<br>• Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn gywir drwy gydol y perfformiad cyfan | **9-10 marc**<br>• Cynnal techneg hynod effeithiol drwy gydol y perfformiad<br>• Tonyddiaeth cwbl sicr drwy gydol y perfformiad cyfan<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu wedi eu datblygu'n llawn ac wedi'u defnyddio'n effeithiol gydag amrywiadau cynnil sy'n briodol i'r repertoire | **9-10 marc**<br>• Perfformiad soffistigedig a pherswadiol sy'n dangos dealltwriaeth aeddfed o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu sensitif ac effeithiol er mwyn cynnal diddordeb y gynulleidfa drwy gydol y perfformiad<br>• Cydberthynas soffistigedig â pherfformwyr eraill, lle bo'n briodol, gan arwain at berfformiad cytbwys iawn |
| **3** | **6-8 marc**<br>• Perfformiad cywir, yn sicr o ran traw a/neu rythm* am y rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Cynnal tempo priodol am y rhan fwyaf o'r perfformiad, ond effeithir ar rugldер y darn yn achlysurol<br>• Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn gywir am y rhan fwyaf o'r perfformiad | **6-8 marc**<br>• Cynnal techneg effeithiol drwy'r rhan fwyaf o'r perfformiad<br>• Tonyddiaeth sicr am y rhan fwyaf o'r perfformiad gyda gwallau achlysurol<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu wedi eu datblygu'n dda ac wedi'u defnyddio'n effeithiol gydag amrywiadau sy'n briodol i'r repertoire am y rhan fwyaf o'r perfformiad | **6-8 marc**<br>• Perfformiad digonol sy'n dangos dealltwriaeth o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu effeithiol er mwyn cynnal diddordeb y gynulleidfa drwy ran fwyaf o'r perfformiad<br>• Mae yna gydberthynas â'r perfformwyr eraill y rhan fwyaf o'r amser, lle bo'n briodol, sy'n arwain at berfformiad cytbwys |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **3-5 marc**<br>• Perfformiad anghyson, yn ansicr ar brydiau o ran traw a/neu rythm*<br>• Tempo anghyson ar nifer o achlysuron yn effeithio ar rugldеr y perfformiad<br>• Y cyfarwyddiadau perfformio wedi'u dilyn yn anghyson | **3-5 marc**<br>• Techneg anghyson drwy gydol y perfformiad<br>• Mae'r donyddiaeth yn ansicr drwy gydol y perfformiad<br>• Mae'r ansawdd tôn a'r alldaflu yn anghyson, er bod yna beth amrywiaeth lle bo'n briodol i'r repertoire | **3-5 marc**<br>• Perfformiad anghyson sy'n dangos ychydig o ymwybyddiaeth o gyfnod ac arddull (mewn perthynas â'r maes astudio lle bo'n briodol)<br>• Cyfathrebu anghyson â'r gynulleidfa drwy gydol y perfformiad<br>• Ceir peth teimlad o gydberthynas â pherfformwyr eraill, lle bo'n briodol, ond nid yw'r perfformiad bob amser yn gytbwys |
| **2** | **4-6 marc**<br><br>• Mae rhai syniadau cerddorol yn briodol<br>• Mae ychydig o strwythur yn perthyn i'r syniadau, ac maent yn rhoi sylfaen ansicr i'r darn<br>• Ymateb anghyson i'r briff a ddewiswyd | **4-6 marc**<br><br>• Mae syniadau thematig yn cael eu datblygu'n rhannol gyda pheth tystiolaeth o drefn<br>• Defnyddiwyd ychydig o dechnegau cyfansoddi i greu canlyniad anghyson<br>• Cyfunwyd rhai elfennau cerddorol i gynhyrchu darn cydlynol mewn mannau | **4-6 marc**<br><br>• Dangosir ychydig o reolaeth dechnegol ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae rhai o'r syniadau yn cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth fynegiannol a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir ychydig o reolaeth ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **1** | **1-3 marc**<br><br>• Mae'r syniadau'n gyfyngedig<br>• Mae diffyg strwythur yn perthyn i'r syniadau, ac nid ydynt yn rhoi ond ychydig, neu ddim, sylfaen i'r darn<br>• Ymateb nad yw'n argyhoeddi/ymateb cyfyngedig i'r briff a ddewiswyd | **1-3 marc**<br><br>• Mae diffyg datblygiad yn perthyn i'r syniadau, ac nid oes ond ychydig o drefn, neu ddim o gwbl<br>• Defnyddir technegau cerddorol syml mewn ffordd gyfyngedig i gynhyrchu canlyniad syml ac ailadroddus<br>• Defnyddiwyd ychydig o elfennau cerddorol yn ddigonol er mwyn cynhyrchu darn sydd â chydlyniad cyfyngedig | **1-3 marc**<br><br>• Dangosir ychydig neu ddim rheolaeth dechnegol ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae'r syniadau'n cael eu cyfathrebu gydag ond ychydig neu ddim rheolaeth fynegiannol a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir ychydig neu ddim rheolaeth ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **0** | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o greadigrwydd na chynnwys cerddorol sy'n argyhoeddi | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o ddatblygiad cerddorol, na dim teimlad o gydlyniad arddulliadol | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o reolaeth dechnegol na mynegiannol |

© WJEC CBAC Ltd.

## Meini Prawf Asesu ar gyfer Uned 5 Cyfansoddi – Traddodiad Clasurol y Gorllewin

| **AA2<br>Creu a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth a chydlyniad technegol a mynegiannol** | | |
|---|---|---|
| **Band** | **Creu Syniadau Cerddorol** | **Rheolaeth Dechnegol a Mynegiannol ar Elfennau Cerddorol** |
| **3** | **7-9 marc**<br>• Mae'r syniadau cerddorol yn soffistigedig drwyddi draw<br>• Mae'r syniadau wedi'u strwythuro'n llawn, ac maent yn rhoi sylfaen gadarn i'r darn<br>• Ymateb aeddfed a soffistigedig i'r briff a ddewiswyd | **7-9 marc**<br>• Dangosir rheolaeth dechnegol soffistigedig a medrus ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth fynegiannol soffistigedig a dealltwriaeth gerddorol amlwg<br>• Dangosir rheolaeth soffistigedig ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **2** | **4-6 marc**<br>• Mae'r syniadau cerddorol yn effeithiol ar y cyfan<br>• Mae'r syniadau wedi'u strwythuro'n effeithiol, ac maent yn rhoi sylfaen briodol i'r darn<br>• Ymateb effeithiol i'r briff a ddewiswyd | **4-6 marc**<br>• Dangosir rheolaeth dechnegol briodol ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol gyda rheolaeth fynegiannol a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir rheolaeth effeithiol ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **1** | **1-3 marc**<br>• Mae'r syniadau cerddorol yn anghyson<br>• Mae'r syniadau wedi'u strwythuro'n rhannol, ac yn rhoi sylfaen anghyson i'r darn<br>• Ymateb simplistig a chyfyngedig i'r briff a ddewiswyd | **1-3 marc**<br>• Dangosir rheolaeth dechnegol anghyson ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth anghyson a dealltwriaeth gerddorol gyfyngedig<br>• Dangosir rheolaeth gyfyngedig ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **0** | **0 marc**<br>• Dim tystiolaeth o greadigrwydd na chynnwys cerddorol sy'n argyhoeddi | **0 marc**<br>• Dim tystiolaeth o reolaeth dechnegol na mynegiannol |

© WJEC CBAC Cyf.

## Meini prawf asesu ar gyfer Uned 5: Cyfansoddi – Darn(au) Rhydd

| | **AA2<br>Creu a datblygu syniadau cerddorol â rheolaeth a threfn dechnegol a mynegiannol** | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Creu Syniadau Cerddorol** | **Datblygu Syniadau Cerddorol** | **Rheolaeth Dechnegol a Mynegiannol ar Elfennau Cerddorol** |
| **4** | **10-12 marc**<br><br>• Mae'r syniadau cerddorol yn soffistigedig drwyddi draw<br>• Mae’r syniadau wedi’u strwythuro’n llawn, ac maent yn rhoi sylfaen gadarn i’r darn<br>• Ymateb aeddfed a soffistigedig i'r briff a ddewiswyd | **10-12 marc**<br><br>• Mae’r syniadau thematig wedi’u datblygu a’u trefnu mewn modd soffistigedig<br>• Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dechnegau cyfansoddi i greu canlyniad soffistigedig<br>• Cyfunwyd yr holl elfennau cerddorol yn fedrus i gynhyrchu darn cwbl gydlynol | **10-12 marc**<br><br>• Dangosir rheolaeth dechnegol soffistigedig a medrus ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau’n cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth fynegiannol soffistigedig a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir rheolaeth soffistigedig ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg lle bo'n briodol |
| **3** | **7-9 marc**<br><br>• Mae’r rhan fwyaf o’r syniadau cerddorol yn effeithiol<br>• Mae’r syniadau wedi’u strwythuro, ac maent yn rhoi sylfaen briodol i’r darn<br>• Ymateb priodol i’r briff a ddewiswyd | **7-9 marc**<br><br>• Mae’r syniadau thematig wedi’u datblygu a’u trefnu<br>• Defnyddiwyd amrywiaeth o dechnegau cyfansoddi i greu canlyniad priodol<br>• Cyfunwyd elfennau cerddorol yn briodol i gynhyrchu darn cydlynol | **7-9 marc**<br><br>• Dangosir rheolaeth dechnegol briodol ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau’n cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth fynegiannol a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir rheolaeth briodol ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2** | **4-6 marc**<br><br>• Mae'r syniadau cerddorol yn anghyson<br>• Mae'r syniadau wedi'u strwythuro'n rhannol, ac yn rhoi sylfaen anghyson i'r darn<br>• Ymateb anghyson i'r briff a ddewiswyd | **4-6 marc**<br><br>• Mae'r syniadau thematig wedi'u datblygu a'u trefnu mewn modd anghyson<br>• Defnyddiwyd ychydig o dechnegau cyfansoddi i greu canlyniad anghyson<br>• Cyfunwyd rhai elfennau cerddorol yn anghyson i gynhyrchu darn cydlynol mewn mannau | **4-6 marc**<br><br>• Dangosir rheolaeth dechnegol anghyson ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae'r syniadau'n cael eu cyfathrebu'n anghyson gydag ychydig o reolaeth fynegiannol a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir rheolaeth anghyson ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth pan fo hynny'n briodol |
| **1** | **1-3 marc**<br><br>• Mae'r syniadau yn elfennol<br>• Mae diffyg strwythur yn perthyn i'r syniadau, ac maent yn rhoi sylfaen gyfyngedig i'r darn<br>• Ymateb simplistig a chyfyngedig i'r briff a ddewiswyd | **1-3 marc**<br><br>• Mae diffyg datblygiad yn perthyn i'r syniadau ac mae trefn yn gyfyngedig<br>• Defnyddiwyd ychydig o dechnegau cyfansoddi i greu canlyniad syml ac ailadroddus<br>• Defnyddiwyd ychydig o elfennau cerddorol yn effeithiol i gynhyrchu darn nad oes teimlad o gydlyniad yn perthyn iddo | **1-3 marc**<br><br>• Dangosir rheolaeth dechnegol gyfyngedig ar yr elfennau cerddorol<br>• Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu gyda rheolaeth fynegiannol gyfyngedig a dealltwriaeth gerddorol<br>• Dangosir rheolaeth gyfyngedig ar yr adnoddau a ddewisir, yn cynnwys y defnydd o dechnoleg cerddoriaeth lle bo'n briodol |
| **0** | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o greadigrwydd na chynnwys cerddorol sy'n argyhoeddi | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o ddatblygiad cerddorol, na dim teimlad o gydlyniad arddulliadol | **0 marc**<br><br>• Dim tystiolaeth o reolaeth dechnegol na mynegiannol |

© WJEC CBAC Cyf.

## Canllawiau ychwanegol ar gyfer Cyfansoddi

Mae cyfansoddi yn y maes astudio yn ofynnol i bob dysgwr yn Nhraddodiad Clasurol y Gorllewin (meysydd astudio A a D). Mae'n ofynnol hefyd i ddysgwyr sy'n dilyn opsiwn B yn yr U2 Uned 2 gyfansoddi darn mewn maes astudio arall, gwahanol. Mae'r wybodaeth ganlynol yn caei ei darparu fel canllawiau ar gyfer cyfansoddi yn y meysydd astudio, yn cynnwys cyfansoddiadau a gyfansoddwyd i ymateb i friff penodol neu friff y dysgwr ei hun. Nid yw'r rhestr yn rhestr gyflawn o nodweddion a geir mewn cyfansoddiad, ac nid yw'n ddisgwyliedig i ddysgwyr gynnwys popeth sydd ar y rhestr. **Cynghorir** dysgwyr i ystyried y wybodaeth ynghyd â'r meini prawf asesu wrth gynllunio cyfansoddiad, a bydd aseswyr yn ystyried y wybodaeth wrth asesu'r cyfansoddiadau.

## Meysydd astudio A a D: Traddodiad Clasurol y Gorllewin (cyfnodau Baróc, Clasurol a Rhamantaidd)

Bydd y cyfansoddiad hwn yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC.
Drwy astudio gweithiau gosod penodol a ategir gan wrando annibynnol sy'n gysylltiedig â'r maes astudio, anogir y dysgwyr i adnabod dyfeisiau, technegau, confensiynau ac adnoddau cyfansoddi perthnasol y gellir eu hymgorffori a'u datblygu wedyn yn eu cyfansoddiadau eu hunain i greu cyfansoddiad cyson o fewn idiom donyddol a gydnabyddir.
Dylai ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth gerddorol drwy gyflwyno cyfansoddiad sydd â swmp a sylwedd iddo, gan gyfleu eu profiad o wrando ac o berfformio. Mae angen iddynt arddangos defnydd o eirfa gerddorol, dangos dealltwriaeth glir a rheolaeth ar adnoddau, a dangos rheolaeth ystyriol ar yr elfennau cerddorol.

Efallai y bydd y dysgwyr yn dymuno ystyried y nodweddion cerddorol canlynol sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin.

- **Adeiledd/Trefn** yn cynnwys ffurfiau fel ritornello, ffiwg, dwyran, teiran, da capo, stroffig, rondo, thema ac amrywiadau, sonata, cyfansoddiad di-dor a cherddoriaeth raglennol

- **Nodweddion arddulliadol** alaw a rhythm, fel siapiau melodig nodweddiadol, cydbwysedd brawddegau priodol, rhuglder melodig/cyferbyniadau ac amrywiaeth rhythmig/trawsacennu

- **Dyfeisiau** fel efelychiant, dilyniant, ailadrodd, ostinato, ymestyn a thrin deunydd cychwynnol yn ddychmygus, datblygiad motiffaidd/atganol, gwrthdroeon, estyn, cywasgu ac olrediad

- **Gwead ac ansawdd** yn cynnwys haenu, cyferbyniadau ansoddol ac amrywiaeth o ran gwead, gwrthbwynt, ysgrifennu antiffonïaidd, arddulliau cyfeilio addas ac ysgrifennu idiomatig ar gyfer lleisiau ac offerynnau

- **Cyweiredd/Harmoni** fel cyweiriau mwyaf a lleiaf a harmonïau diatonig, dilyniadau harmonig nodweddiadol, diweddebau, 7fed eilaidd a chywasg, trawsgyweirio i amrywiaeth o gyweiriau perthnasol, tonyddeiddio, cylch 5edau, nodau anhepgor/hepgor, gohiriannau, graddfeydd, arpeggi a llinell fas gryf

© WJEC CBAC Ltd.

## Maes Astudio B ac DD: Roc a Phop

Datblygodd bandiau roc fel *The Beatles, The Rolling Stones a The Who* sain gryfach ac uwch na roc a rôl cynharach, ac ochr yn ochr â hyn ymddangosodd genre o gerddoriaeth 'bop' masnachol oedd yn seiliedig ar siartiau (ac ysgafnach).
Mae'n rhaid i ddysgwyr adnabod ac archwilio'r iaith gerddorol berthnasol yn drylwyr er mwyn deall nodweddion arddulliadol cerddoriaeth roc a phop yn iawn.

Mae nifer o ganeuon cynrychioliadol yn rhannu nifer o nodweddion cerddorol cyfarwydd:

| **Elfennau/Nodweddion Cerddorol** | **Offeryniaeth** |
|---|---|
| • **Alaw** | prif leisydd, grŵp lleisiol, offeryn unawdol, prif gitâr, sacs ac allweddellau |
| • **Harmoni** | allweddellau/piano/organ, lleisiau cefndir, gitâr (rhythm/acwstig), adran bres (trwmpedau, adran sacs a thrombonau) |
| • **Rhythm** | cit drymiau ac offerynnau taro ychwanegol |
| • **Rhan bas** | gitâr fas, bâs dwbl, allweddellau a bas (bob amser yn neilltuol iawn) |
| • **Adeiledd** | stroffig, cyfansoddiad di-dor, 12 bar, adrannau ychwanegol fel 8 Canol etc |
| • **Geiriau** | cynghorir dysgwyr i ddefnyddio'u geiriau eu hunain, oherwydd bod defnyddio geiriau cân sy'n bodoli eisoes yn arwain at alaw sy'n debyg i'r un wreiddiol fel arfer |
| • **Dyfeisiau** | cyferbyniadau (o ran alaw, gwead, modd, offeryniaeth, harmoni etc.), haenu, ychwanegu a chyfalaw a chydbwysedd rhwng rhannau. |

© WJEC CBAC Cyf.

## Maes Astudio C ac Dd: Theatr Gerdd

Mae integreiddio cerddoriaeth a drama a thwf theatr gerdd wedi creu cyfoeth o gerddoriaeth. Beth bynnag yw math y cynhyrchiad, mae'r broses o adrodd stori yn cael ei chyflawni drwy gyfrwng unawdau, ensembles lleisiol, corysau, dawnsiau, agorawdau ac interliwdiau. Felly, mae'n rhaid i ddysgwyr gynllunio sut bydd eu cerddoriaeth yn cyfathrebu'r plot, y geiriau, y sefyllfa a'r naws yn effeithiol. Mae ymchwilio i fathau gwahanol o gerddoriaeth **cyn** ysgrifennu briff yn fuddiol iawn i ddysgwyr. Drwy wneud hyn gallant benderfynu pa dechnegau ac arferion sy'n addas iddynt eu cynllunio, a datblygu eu syniadau cyfansoddi eu hunain.

Dylid ystyried y cynhwysion cerddorol canlynol:

- **Plot** — Penderfynu ar leoliad, cyd-destun, sefyllfa, geiriau a naws cyn cynllunio'r adnoddau /strategaethau / adeileddau/dyfeisiau sy'n addas ar gyfer y dasg
- **Deunydd thematig** — Ystyried cyd-destun y geiriau, gan greu alaw briodol fel partner i'r geiriau a'r naws, gan gyfansoddi alawon cofiadwy a chyfleu'r naws a'r negeseuon yn effeithiol
- **Adeiledd** — Cynllunio'r fformat: defnyddio siapiau rhythmig tebyg, cyfansoddi patrymau cofiadwy a chytganau effeithiol a gweithio i greu cydbwysedd a siâp effeithiol (e.e. AABA, stroffig, cyfansoddiad di-dor)
- **Harmoni** — Defnyddio cordiau priodol, dangos y gallu i greu adeileddau harmonig effeithiol, dilyniadau a chyferbyniadau, cyfansoddi'r cyfeiliant gan ddefnyddio iaith harmonig briodol, defnyddio cyfradd newid harmonig addas er mwyn ategu'r deunydd thematig a chyfleu'r ddrama
- **Adnoddau** — Dewis offeryniaeth a sicrhau ysgrifennu idiomatig, cydbwysedd a rheolaeth rhwng yr offerynnau a'r lleisiau, ac yn y gweadau a ddewiswyd.

## Maes Astudio Ch ac Dd: Jazz

Ar ei ffurf ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ymddangosodd Jazz fel cyfuniad o arddulliau cerddorol Affricanaidd a Gorllewinol a nodweddwyd gan chwarae'n fyrfyfyr, curiad taer, trawsacennu cymhleth, nodau blues a dilyniadau harmonig syml a fformwläig ar y cychwyn. Roedd hwn yn genre a greodd ei gyfriniaeth ei hun, gan gydio yn nychymyg cynulleidfa fyd-eang. Esblygodd mewn ffyrdd gwahanol ac mae wedi dylanwadu ar fathau eraill o gerddoriaeth ers tua 1918.

Mae yna gyfoeth o recordiadau ar gael a dylai dysgwyr fabwysiadu dull damcaniaethol ac ymarferol er mwyn ymgyfarwyddo eu hunain yn llwyr â datblygiad y genre hwn. Bydd ymgymryd â'r arddull yn lleisiol ac yn offerynnol a'i hymarfer yn gwella'u dealltwriaeth gerddorol ohoni.

© WJEC CBAC Ltd.

Er mwyn llwyddo i fyfyrio ar y maes astudio hwn, mae angen deall confensiynau cydnabyddedig Jazz, ac yna'u hymgorffori mewn cyfansoddiadau unigol.

Gall yr awgrymiadau canlynol roi ychydig o arweiniad:

- **Arddulliau** yn cynnwys ragtime, dixieland, jazz cynnar, band mawr a be-bop
- **Adeileddau** yn cynnwys ffurf amrywiad, adeileddau 12/24/32 bar a phatrymu cordiau (newidiadau)
- **Harmonïau** yn cynnwys harmonïau blues, harmonïau triadol, dilyniadau nodweddiadol, nodau blues, 6ed, 7fed, estyniadau cordiau, graddfeydd a moddau amrywiol
- **Nodweddion** fel toriad, dalen ganllaw, ríff, sgat, corws, offerynnau blaen, adran rhythm, cyfeilio, chwarae'n fyrfyfyr, bas sy'n cerdded, cordiau ergyd, band cefnogi, nodau tywys a chiciau.

## Maes Astudio Dd: Cerddoriaeth yr Ugeinfed Ganrif

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ar ddechrau'r ugeinfed ganrif pylodd rhamantiaeth, a chwiliwyd am gyfeiriadau a sialensau cerddorol newydd.

Mae'n ofynnol i'r dysgwyr gynhyrchu cyfansoddiad sy'n dangos ac yn cyfleu dealltwriaeth o iaith gerddorol y cyfnod hwn drwyddo draw. Disgwylir y bydd y dysgwyr yn ymgyfarwyddo â nodweddion arddulliadol a chonfensiynau'r cyfnod hwn ac yn arbrofi â nhw. Drwy berfformio a gwerthuso, anogir dysgwyr i adnabod dyfeisiau a thechnegau cyfansoddi perthnasol y bydd modd wedyn eu hymgorffori a'u datblygu yn eu cyfansoddiadau eu hunain er mwyn creu canlyniad dychmygus, sylweddol a chyson.

Gellir ysgrifennu'r cyfansoddiad ar gyfer unrhyw ensemble neu gyfuniad o ffynonellau sain, fel bo'n briodol.

Er y gellir defnyddio rhai o'r dyfeisiau a gysylltir â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin yn y cyfansoddiad hwn, mae'n rhaid i'r dysgwyr ystyried y canlynol:

| **Arddulliau** | **Nodweddion/Dyfeisiau Cyfansoddi** |
|---|---|
| • **Argraffiadaeth** | graddfeydd tonau cyfan a chromatig, cordiau cyfochrog, cordiau nawfed, rhythmau llyfn, trefniannau cerddorfaol lliwgar a chyfoethog, anghyseiniau heb eu hadfer, defnydd o rythmau rhydd, ffurfiau rhaglennol ar raddfa fach. |
| • **Cenedlaetholdeb** | ystyriaethau gwladgarol a diwylliannol, dylanwad llên a chaneuon gwerin, ffurfiau a syniadau rhaglennol |
| • **Neo-glasuraeth** | defnydd o gerddoriaeth absoliwt, sylw i grefftwriaeth a chydbwysedd ffurfiau ac adeileddau, technegau ffiwgaidd a gwrthbwyntiol y dylanwadwyd arnynt gan y cyfnodau Baróc a Chlasurol |
| • **Mynegiadaeth** | technegau cyfresol a'r raddfa ddeuddeg tôn, digyweiredd, anghyseinedd, rhythmau a mesurau afreolaidd, alawon onglog a chwmpasrannau eithaf. |

© WJEC CBAC Cyf.

## Maes Astudio Dd: Cerddoriaeth yr Unfed Ganrif ar Hugain

Ar hyn o bryd mae cerddoriaeth yn ffurf ar gelfyddyd amrywiol. Mae arddulliau yn eclectig, nid oes unrhyw duedd benodol yn cael ei ffafrio ac mae unigoliaeth yn cael ei hannog.

Tuedd a ddaeth yn fwyfwy poblogaidd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain oedd **amlarddulliaeth** (neu eclectigiaeth gerddorol). Mae’n cyfuno elfennau o genres cerddorol amrywiol a thechnegau cyfansoddi i greu corff o waith unedig a chydlynol. Yn aml mae cyfansoddwyr wedi cychwyn eu gyrfa gerddorol drwy ddilyn un ddisgyblaeth ac yn ddiweddarach wedi symud tuag at, neu wedi cofleidio, rhai eraill, a hefyd wedi cadw elfennau pwysig y ddisgyblaeth flaenorol.

Un genre poblogaidd yw **Minimaliaeth**. Roedd hwn yn ymateb a ddigwyddodd yng nghanol yr ugeinfed ganrif i gymhlethdod cyfansoddiadau modernaidd, ac mae’n arddull sy’n parhau i fod yn ddylanwadol mewn cerddoriaeth gyfoes. Mae nodweddion a dyfeisiau cyfansoddi'r arddull hwn yn cynnwys dibyniaeth ar gell gychwynnol, rhyngweithio rhythmig, cylchu sain, a thriniaeth ddychmygus a chymwys o gelloedd melodig. Dylai dysgwyr gofio mai prif nodwedd minimaliaeth yw lleihad, ac felly mae'n rhaid iddynt gofio bod angen ymagwedd ddychmygus tuag at eu gwaith er mwyn bodloni gofynion meini prawf asesu cyfansoddi.

Unigoliaeth a’r gallu i gyflwyno syniadau cerddorol yn effeithiol a hyderus drwy ddyfeisgarwch cerddorol personol yw’r brif ystyriaeth. Mae effaith barhaus cerddoriaeth y byd, cerddoriaeth werin, cyfuniad o arddulliau’r gorffennol a’r presennol, cerddoriaeth ffilm a’r cyfryngau, a cherddoriaeth electronig yn cynnig llwybrau ar gyfer arbrofi cerddorol. Felly, anogir dysgwyr i archwilio eu diddordebau, a chanolbwyntio ar gyfathrebu eu syniadau cerddorol yn gydlynol ac yn argyhoeddi er mwyn creu canlyniad arddulliadol a sylweddol yn eu harddull eu hunain.

Mae mwy o syniadau ac enghreifftiau o strategaethau dysgu ar gael yn y Canllawiau Athrawon.

© WJEC CBAC Ltd.

# ATODIAD C

## Rhestr o dermau cerddorol

**Alaw**

- Anacrwsis
- Cysylltiol
- Digyswllt
- Dilyniant
- Ailadrodd
- Cyferbyniad
- Cyfalaw
- Cyfyngau e.e. trithon
- Darniog
- Portamento
- Addurniad
- Brawddegu
- Nodyn camu
- Nodyn tonnog
- Nodyn anhepgor/hepgor
- Estyniad
- Cywasgiad
- Gwaith atganol
- Idée Fixe/leitmotiv/thema motto
- Trawsnewid thematig
- Anghydweddu
- Cyfyngau diatonig a chromatig (i fyny at yr wythfed)
- Arpeggi/cordiau gwasgar
- Graddfaol yn cynnwys (tonydd, uwch donydd, meidon, islywydd, isfeidon, nodyn arweiniol)
- Symudiad cromatig
- Pentatonig
- Blues/nodyn blues
- Nodyn tywys
- Cromatig
- Tôn gyfan
- Trithon
- Moddol
- 12 tôn
- Klangfarbenmelodie
- Octatonig
- Ystod
- Sillafog
- Melismataidd
- Ríff
- Lic

**Harmoni**

- Prif gordiau
- Cordiau eilaidd
- Tonydd
- Islywydd
- 7fed llywydd
- Diweddeb 6/4
- 7fed Mwyaf
- 7fed Lleiaf
- Cordiau cywasg
- 6ed Neapolitaidd
- 6ed Estynedig
- Cord nawfed
- Seithfed eilaidd
- Cord sus4
- 6ed atodol
- Cord pŵer
- Gwrthdroeon
- Appoggiaturas
- Tierce de picardie
- Cord nodyn atodol
- Estyniadau cordiau jazz a defnyddio nodau tywys
- Nodau anhepgor a hepgor
- Diweddebau: perffaith, amherffaith, amen/eglwysig, annisgwyl, a phrygiaidd
- Trawsgyweirio
- Gohiriad
- Harmoni cyfwng pedwar
- Diatonig
- Harmoni swyddogaethol
- Harmoni answyddogaethol
- Cytgordiau / Cyseinedd
- Anghytgordiau / Anghyseinedd
- Clystyrau
- Harmoni cromatig
- Harmonïau cyfochrog
- Cord dilynol
- Rhythm harmonig
- Cylch pumedau
- Anghytgord llywydd uwch
- Drôn
- Pedal
- Tetracord

Ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Ffurf ac adeiledd**

- Dwyran
- Teiran
- Rondo
- Ritornello
- Thema ac amrywiadau
- Stroffig
- Ffurf Sonata
- Cathl symffonig
- Sonata Rondo
- Miniwét a Thrio/Scherzo
- Ffurf bwa
- Cyfansoddiad di-dor
- Cylchol
- Pennill a chytgan
- Cyn-gytgan
- Byrdwn
- Cân 32 bar/AABA
- Adeiledd 24 bar
- Blues 12 bar
- Rhagarweiniad
- Dangosiad
- Datblygiad
- Ailddangosiad
- Coda
- Ffiwg
- Ateb real
- Ateb cyweiraidd
- Requiem
- Cantata
- Offeren
- Oratorio
- Adroddgan
- Aria
- Corws
- Kyrie
- Gloria
- Dies Irae
- Tuba Mirum
- Rex Tremendae
- Rhagarweiniad
- Diweddglo
- Wythbar canol/rhyddhau
- Ffurfiau rhaglennol
- Ffiwg
- Ostinato
- Grwndfas
- Ailadrodd
- Pont
- Dolen
- Llenwi
- Ríff
- Toriad
- Cytgan jazz
- Blaen
- Cadenza
- Gwrthdro
- Olrediad
- Gwrthdro ôl-redol
- Chwarae'n fyrfyfyr
- Galw ac ateb
- Atsain
- Integreiddio
- Aleatoraidd
- Adeiledd brawddegau

**Cyweiredd**

- Mwyaf
- Lleiaf
- Moddol
- Digywair
- Deugywair
- Amlgywair
- Tonydd
- Llywydd
- Perthynol lleiaf
- Trawsgyweiriad
- Tonyddeiddio
- Trawsnodi
- Enharmonig
- Octatonig

**Tempo**

- Termau cyflymder o araf iawn i gyflym iawn
- Mae'r holl dermau wedi'u cysylltu â'r gweithiau gosod/repertoire unigol

**Dynameg**

- Termau o'r tawel iawn i'r uchel iawn
- Arwyddion/symbolau a ddefnyddir yn rheolaidd
- Mae'r holl dermau wedi'u cysylltu â'r gweithiau gosod/repertoire unigol
- Acenion
- Subito
- Sforzando

© WJEC CBAC Ltd.

**Ansawdd**

- Pob offeryn cerddorfaol
- Offerynnau acwstig
- Offerynnau electronig
- Cerddorfa/band yn y pwll
- Isgerddoriaeth
- Bandiau roc a phop
- Cyfuniadau Jazz a thechnegau perfformio cysylltiedig e.e. mudyddion, chwyrniadau, bas sy'n cerdded, ciciau a llenwadau drymiau, cyfeilio, cordiau ergyd
- Offerynnau blaen, adran rhythm
- Cynaniad e.e. legato, staccato
- Cyfuniadau lleisiol e.e. unawdau, deuawdau, triawdau, ensemble a chorysau
- Rhinweddau lleisiol e.e. techneg llefaru, beltio, twang a falsetto
- Sgat
- A cappella
- Technegau perfformio sy'n gysylltiedig â meysydd astudio e.e. sul ponticello, camu, sgat
- Technoleg cerddoriaeth e.e. ystumiant, adborth, tremolo, effeithiau fel pedal wah-wah
- Offerynnau anarferol e.e. theremin
- Pwyntiliaeth

**Gwead**

- Monoffonig
- Homoffonig
- Polyffonig
- Gwrthbwyntiol
- Heteroffonig
- Unsain
- Cordiol
- Efelychiant
- Homoffoni alawol
- Cyfalaw
- Gwrthbwynt
- Desgant
- Tôn gron
- Canon
- Drôn
- Haenu
- Stretto
- Antiffoni
- Ffiwgaidd
- Chwarae byrfyfyr amlhaenog
- Cordiau ergyd
- Bas alberti
- Bas sy'n cerdded

**Rhythm a mesur**

- Gwerth pob nodyn a thawnodau cysylltiedig
- Rheolaidd
- Afreolaidd
- Amser syml (deublyg, triphlyg, pedwarplyg)
- Amser cyfansawdd ( deublyg, triphlyg, pedwarplyg 7/8 etc.)
- Mesur atodol
- Trawsrythm
- Rubato
- Rhythm dot
- Rhaniadau curiad, fel tripledi etc.
- Trawsacennu
- Acen
- Rhythm rhydd
- Isorhythm
- Hemiola
- Lluosrythm
- Cwaferau swing
- Grŵf
- Ciciau
- Amser dwbl
- Tawnodau



© WJEC CBAC Cyf.